

CANU GWERIN

(FOLK SONG)

1/1978



CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU
THE WELSH FOLK—SONG SOCIETY

Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru

Welsh Folk-Song Society

(Sefydlwyd/*Founded* 1908)

Y SWYDDOGION A'R PWYLLGOR GWAITH, 1977-78 *THE OFFICERS AND EXECUTIVE COMMITTEE 1977-78*

Llywydd/*President*: Mr. W. EMRYS CLEAVER.

Is-Lywyddion/*Vice-Presidents*:

Dr. MOSTYN LEWIS, Mrs. K. IDWAL JONES, Dr. OSIAN ELLIS,
Miss MAXWELL FRAZER, Y Fonesig/Lady AMY PARRY-WILLIAMS,
Mrs. ENID PARRY.

Cadeirydd/*Chairman*: Mr. E. BENNETT OWEN.

Is-Gadeirydd/*Vice-Chairman*: Dr. MEREDYDD EVANS.

Pwyllgor Gwaith/*Executive Committee*:

Mrs. EUNICE BRYN WILLIAMS, Mrs. STEPHEN J. WILLIAMS, Mrs. A. LUMLEY, Mrs. G. MEGAN TIBBOTT, Miss ANITA WILLIAMS, Mr. ALUN W. G. DAVIES, Mrs. C. R. SIMON, Mr. T. GWYNN JONES, Miss GWYNETH PALMER, Mrs. MARGARET OWEN, Miss PHYLLIS KINNEY, Y Parch/The Rev. ELFED LEWIS, Mrs. SIÂN EMLYN EDWARDS, Mr. CERIS GRUFFUDD, Mrs. MEINIR MACDONALD, Mrs. MYRA REES.

Trysorydd/*Treasurer*:

Mrs. FRANCES MÔN JONES,
Coed y Garth Lwyd, Llanfair Caereinion, Powys.
Ffôn: Llanfair Caereinion 545.

Ysgrifennydd/*Secretary*:

Mrs. BUDDUG LLOYD ROBERTS,
Hafan, Cricieth, Gwynedd. Ffôn: Cricieth 2096.

Golygydd y Cylchgrawn/*Editor of the Journal*:

Mr. D. ROY SAER,
Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd.
Ffôn: Caerdydd/Cardiff 561357.

Cyfarwyddwr Cerdd/*Musical Director*:

Mr. W. S. GWYNN WILLIAMS, O.B.E.,
Plas Hafod, Llangollen, Clwyd. Ffôn: Llangollen 860209.

Archwiliwr/*Auditor*: Mr. H. F. J. CADWALADER.

CANU GWERIN

(FOLK SONG)

1/1978

CYLCHGRAWN CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU
JOURNAL OF THE WELSH FOLK-SONG SOCIETY

Golygyddol/ <i>Editorial</i>	...	...	...	...	...	...	3
Cyfrannwr/ <i>Contributor</i>	...	...	...	...	...	...	4
Geiriau Ein Caneuon Gwerin. AMY PARRY-WILLIAMS (<i>The Texts of Our Folk Songs</i>)	...	...	...	...	...	...	5
Tôn 'Hen Ddarbi' a'i Theulu. D. ROY SAER (<i>The Tune 'Old Darby' and its Family</i>)	...	...	...	...	...	...	17
Pum Cân Werin o Forgannwg (<i>Five Glamorgan Folk Songs</i>)	...	...	...	...	...	...	27
Newyddion/ <i>News</i>	...	...	...	...	...	...	38

Golygydd/*Editor*: D. ROY SAER —

Adran Llên Gwerin, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd, CF5 6XB
Department of Folklore, Welsh Folk Museum, .St. Fagans, Cardiff, CF5 6XB

Argraffwyd gan Wasg Gee, Dinbych

GOLYGYDDOL

Fis Chwefror diwethaf, yn Aberystwyth, penderfynodd ein Pwyllgor Gwaith o blaid gweddwid rhywfaint ar gylchgrawn y Gymdeithas. Dyna paham y mae i'r rhifyn presennol glawr ac enw gwahanol (tra'n cadw'r hen enw fel is-deit!), peth newid fformat a diwyg o fewn i'w gloriau, yn ogystal â thudalennau ychydig yn llai.

Yr amcan sylfaenol y tu cefn i'r gweithredu hwn yw ceisio denu darllenwyr newydd, a thrwy hynny, gobeithio, ychwanegu at aelodaeth a gweithgarwch y Gymdeithas. Un dymuniad canolog, debyg iawn, yw gweld ychwaneg o bobl ifainc yn ymaelodi. Anelir hefyd at gyhoeddi'r cylchgrawn yn flynyddol — cam cwbl hanfodol, os yw'r Gymdeithas a'i gwaith i ffynnu.

O ran cynnwys, eto, adlewyrcha'r rhifyn presennol y polisi a ffafriwyd gan y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y dyfodol, drwy geisio rhannu sylw rhwng ysgrifau ymchwil a chaneuon 'newydd'. Ceir yma hefyd un ychwanegiad y gobeithir rhoi iddo le parhaol o hyn ymlaen, sef adran 'Newyddion' — adran a ddylai brofi'n adeiladol i ddarllenwyr yn gyffredinol, beth bynnag fo'u diddordeb mewn canu gwerin.

Dyledus ydym i Mr. Arwel Hughes, Amgueddfa Werin Cymru, am lunio clawr newydd y cylchgrawn, ac i Mr. John Samuel, Caerffili, am gopio cerddoriaeth y 'Pum Cân Werin o Forgannwg'. Cyngor Celfyddydau Cymru, drwy Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru, a roes gymorth ariannol ar gyfer cyhoeddi'r rhifyn, a gwir werthfawrogrir ei haelioni unwaith yn rhagor.

EDITORIAL

Last February, in Aberystwyth, our Executive Committee decided in favour of implementing certain changes in the Society's journal. That is why the present number bears a different cover and name (though retaining the former name as a sub-title), some alterations in appearance within its covers, as well as a reduced page-size.

The basic purpose underlying these changes is to try and attract new readers, and through that, hopefully, to increase the Society's membership and activity. One central wish, of course, is to secure additional younger members. It is aimed, too, to publish the journal annually — an essential step if the Society and its work are to prosper.

In content, as well, the present number reflects the policy favoured for the future by the Executive Committee, through dividing attention between research articles and 'new' songs. An additional feature is offered by the inclusion of a 'News' section — which will, we hope, become a permanent

item and prove constructive for readers generally, whatever their approach to folk song.

We are grateful to Mr. Arwel Hughes, Welsh Folk Museum, for designing the journal's new cover, and to Mr. John Samuel, Caerffili, for copying the music of the 'Five Glamorgan Folk Songs'. Financial aid for the publication of this issue has been provided by the Welsh Arts Council through the Welsh Amateur Music Federation, and its assistance is once more truly appreciated.

CYFRANNWR/CONTRIBUTOR

Y FONESIG/LADY AMY PARRY-WILLIAMS

Un o Is-Lwyddion Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru. Awdurdod ar ganu gwerin a cherdd dant, fel ei gilydd, ac ar draws blynyddoedd cyfran-nodd i lawer cyfeiriad yn y meysydd hyn: fel enillydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol, fel beirniad yn y Genedlaethol ac yn Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen, fel darlithydd, awdures erthyglau, ac fel darlled-wraig mewn amryw gyfresi radio a theledu. Cyflawnodd hefyd waith ymchwil helaeth ar bwnc 'Cerddoriaeth Cerddi a Baledi'r Ddeunawfed Ganrif'.

A Vice-President of the Welsh Folk-Song Society. An authority upon folk song and penillion-singing alike, she has, along many years, contributed in many capacities within these fields: as competition winner at the National Eisteddfod, as adjudicator at both the 'National' and the Llangollen International Musical Eisteddfod, as lecturer, writer of articles, and as broadcaster in several radio and television series. She has also carried out considerable research upon the tunes of Welsh songs and ballads of the eighteenth century.

Llun clawr (trwy garedigrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru):

Abel Jones, 'Bardd Crwst' (1830-1901), 'yr olaf o'r baledwyr mawr' yng Nghymru.

Cover photograph (by courtesy of the National Library of Wales):

Abel Jones, 'Bardd Crwst' (1830-1901), 'the last of the great "ballad" writers/singers' of Wales.

GEIRIAU EIN CANEUON GWERIN

AMY PARRY-WILLIAMS

[Addasiad yw'r isod o sgript darlith a droddodwyd gan y Fonesig Amy Parry-Williams yng nghyrsfeydd penwythnos y Gymdeithas yn y Barri (1963) a Bangor (1964). Fe'i cyhoeddir yma heb newid fawr ddim ar arddull lafar y ddarlith. Ei hanner cyntaf yn unig a ymddengys y tro hwn: bwriedir cynnwys y gweddill yn rhifyn nesaf ein cylchgrawn. Gol.]

'Roedd gen i'r dewis, wrth fynd ati i drafod geiriau'n caneuon gwerin, naill ai i gymryd rhyw un adran neu ddwy o'r caneuon a manylu, neu, ar y llaw arall, gymryd y caneuon fwy neu lai yn eu crynswth a thafu rhyw gipdrem gyffredinol ar y cyfan. Yr ail gwrs yma 'rydw i wedi'i dderbyn — oherwydd, os caf fi ddweud hynny, nid dysgu fydd amcan yr hyn sy'n dilyn, ond dangos a galw i gof. A hwyrach, wrth roi rhyw fath o ffrâm am y cwbl, y llwyddaf i adael gyda chi ymsyniad o'r hyn yw stwff geiriol y caneuon yma — er nad pictiwr cyfan fydd o fewn y ffrâm, yn wir, ond brithwaith digon digyswllt mewn mannau.

§

Cyn dechrau, mae un pwynt y carwn i ei wneud am fy ffordd i o edrych ar y geiriau yma — a'r alawon hwythau, am hynny. Hyd y gwela' i, nid pethau i'w cadw'n gysegredig fel creiriau ydyn' nhw; hynny yw, nid pethau i'w cadw nad oes dim newid i fod arnyn' nhw, ac nad oes dehongliad newydd arnyn' nhw i'w oddef a'i ganiatáu. Pethau byw fuon' nhw erioed. Tra bu canu caneuon gwerin yn rhan integrol o fywyd bob dydd — gwaith ac oriau hamdden fel ei gilydd — 'roedd cryn newid yn digwydd i'r caneuon: newid i ateb idiom bro, neu idiom bersonol y canwr. 'Roedd hyn yn wir am y geiriau a'r alawon fel ei gilydd, ac mae'r amrywiaeth fersiynau sydd i rai o'r caneuon yn profi hynny. Pethau byw oedden' nhw; pethau 'at iws', nid pethau statig celfyddydol yn cael eu cadw'n barchus rhwng cloriau llyfrau. Traddodiad llafar oedd i'r caneuon, ac ar dafod leferydd y cawson' nhw'u trosglwyddo gan un genhedlaeth i'r genhedlaeth nesa'. Cof a thafod: dyna i chi ddeubeth na ellwch chi ddibynnu arnyn' nhw'n llwyr — ac os ychwanegwch chi at hynny yr ysfa greu a newid, sy'n ysfa ddynol iawn, a

rhoi at honno binsiad o'r awen barod oedd mor gyffredin ymhlith cwmni'r Noson Lawen, er enghraifft, dyna i chi sicrwydd go dda nad oedd dim gwarant y câi nac alaw na phennill aros yn ddigyfnewid.

Fe wyddon ni i gyd, wrth gwrs, nad yw'r caneuon gwerin hyn yng Nghymru, fwy nag mewn llawer gwlad arall, ddim bellach yn rhan naturiol — hanfodol, bron — o fywyd bob dydd y bobl. Mae ein ffordd ni o fyw wedi newid: holl freintiau gwareiddiad y ganrif hon — ac addysg gyffredinol, yn fwy na dim, efallai — wedi bod yn foddion i ladd yr hen ddiwylliant gwerinol. Dyna'r drefn: amodau bywyd yn newid, a chanu gwerin, a dawnsio gwerin, a'r bardd gwlad parod ei dafod, wedi mynd yn ddianghenraid fel rhan hanfodol o fywyd cymdeithasol ardal, fel yr oedden' nhw pan oedd cymdogaeth yn gorfod dibynnu ar ei hadnoddau ei hunan am ddifyrrwch ei horiau hamdden a'i horiau gŵyl. Mae'r traddodiad llafar a oedd wrth wraidd yr hen ganu gwerin a barddoniaeth werin wedi ei golli. Dysgu'r caneuon o lyfr a wneir heddiw. Fe ffurfiwyd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru mewn pryd — a dim ond mewn pryd — i sicrhau diogelu ein gwaddol cyfoethog iawn.

§

O ran geiriau, beth gawn ni yn y caneuon gwerin hyn? Wel, pobl y wlad yn llefaru ar gân, yn eu mynegi eu hunain yn syml (gan mwya'), yn uniongyrchol (gan mwya') ac yn ddiffuant (eto, gan mwya'). Yn mynegi teimladau personol o ofid, pryder, hiraeth, gobaith a hapusrwydd — hefyd yn rhoi mynegiant i waith bob dydd, diddordebau, ac arferion cymdeithasol y gymdogaeth. (Ar wahân i werth barddonol llawer o'r geiriau, y maent eto'n werthfawr, wrth gwrs, am y goleuni a deflir gan amryw ohonynt ar fywyd y gorffennol.)

Ar ei bura', mae didwylledd diymhongar y canu yma, a'i agosatrwydd at 'bridd y ddaear', yn nodwedd gadarn iawn. Dyma, ar hap, rai penillion sy'n enghreifftiau da ohono, 'rwy'n meddwl. Yn gynta', penillion sy'n dangos, fel mae'n digwydd, mor gyffredin oedd y sôn am 'dorri calon' yn yr hen benillion Cymraeg:

Mae'r esgid fach yn gwasgu mewn man nas gwyddoch chi,
A llawer trwbwl meddwl sy'n torri 'nghalon i;
Mae 'nghalon fach ar dorri, mae bron â mynd yn ddwy,
O waith y mab 'rwy'n garu — ni feiddiaf enwi pwy.

Ac, eto, y pennill hyfryd hwnnw:

Mi fûm yn gweini tymor yn ymyl Ty'n-y-coed,
A dyna'r lle difyrfa' y bûm i ynddo 'rioed:
Yr adar bach yn canu, a'r coed yn suo 'nghyd —
Fy nghalon fach a dorrodd ar waetha'r rhain i gyd.

Wedyn, pennill bach yn nhafodiaith sir Forgannwg:

Fy nghariad a notws i wylad y nos,
Fy nghariad a wetws, do, lawar gair cros,
Fy nghariad a notws i edrych yn llon,
Fy nghariad a dorrws fy nghalon i, bron.

A'r un arall:

Aderyn du â'i blyfyn shitan,
A'i big aur a'i dafod arian,
A ei di drosta'i i Gydweli
I sbïo hynt y ferch 'rwy'n garu?


Mae'r cyfan mor naturiol, ac mor agos atoch, â siarad cyffredin. Mae'r pethau sy'n cael eu dweud yn bethau cyfarwydd bob dydd, ac eto mae stamp gwir artistri yma — y peth sydd mor anodd ei ddiffinio, ond sy'n gadael rhywun gyda'r teimlad 'Ie; dyna'n gywir fel y dylai'r peth gael ei ddweud.'

§

Pwynt neu ddau, eto, cyn dod at destunau'r caneuon ac amcan y canu.

Mae yna gysylltiad clòs arbennig, bron bob amser, rhwng y geiriau a'r alaw. Bron yn ddieithriad fe fydd naws y geiriau yn cael ei adlewyrchu'n berffaith yn naws yr alaw. Enghreifftiau amlwg o hyn yw caneuon fel 'Mae'r Esgid Fach yn Gwasgu', 'Migildi Magildi', 'Ffarwél i Blwy Llangower', neu 'Y Gwcw Fach'.

Mae'r rhain i gyd, wrth gwrs, yn adnabyddus, ond peth hawdd fyddai cynnig rhestr hir o ganeuon lle mae alaw a geiriau yn bartneriaid gwyh. Tair o'r enghreifftiau gorau, yn fy marn i, yw 'Lisa Lân', 'Cysga Di, Fy Mhlentyn Tlws' ac 'Aderyn Du a'i Blyfyn Shitan'. A dyma i chi bwynt diddorol. Cymerwch 'Lisa Lân': fasech chi ddim yn meddwl ei bod hi'n bosibl canu geiriau eraill i'r alaw yna. Ond alaw wedi ei chymryd o Loegr ydy hi — ac mae'r un peth yn wir am 'Cysga Di . . .', sy ar yr alaw Seisnig 'Greensleeves', ac 'Aderyn Du . . .', sy ar alaw 'Barbara Allen'. Sut, felly, y gallwn ni ddweud fod naws yr alaw a naws y geiriau yn cyfateb i'w gilydd yn berffaith, os mai benthyciadau ydy'r rhain? Yr eglurhad yw fod yr alawon Seisnig yma wedi eu cymryd, ac yna eu cymathu a'u cyflyru, eu trin a'u trafod, nes ymdoddi i'r traddodiad Cymraeg ac ateb, i'r dim, bwrpas y canwr a'r gerdd yn yr iaith hon. Fe welir hyn o gymharu rhediad 'Lisa Lân' (yr ail enghraifft) yn *Ail Gasgliad o Alawon Gwerin Môn* (gol. Grace Gwynedd Davies, t. 12) ag eiddo'r gân 'Died For Love' fel y'i ceir yn y *Journal of the Folk-Song Society*, 5 (1914-16), t. 184:



Geiriau gwahanol iawn oedd i'r alaw Seisnig — nid yr un teip o gân o gwbl, mewn gwirionedd. Erbyn ei chymryd drosodd i'r Gymraeg, nid yr un naws sydd i'r alaw, er ei bod yn amlwg mai'r un nodau sydd yno i raddau, yr un patrwm cymalog.

Ar wahân i'r ffaith eich bod yn cael yma alawon Seisnig sy wedi dod yn alawon 'mabwysiedig' Gymreig, os leiciwch chi, 'rych chi hefyd yn cael enghreifftiau o'r un geiriau yn cael eu canu ar alawon sy'n wahanol iawn i'w gilydd. Mae hynny'n digwydd yn aml iawn, iawn. Dyna i chi 'Ym Mhontypridd Mae 'Nghariad': mae iddi fwy nag un fersiwn. Felly hefyd gyda 'Lisa Lân'. Ac y mae llawer mwy nag un fersiwn o 'Pan Own I'n Rhodio Mynwent Eglwys' — ac nid yr un yw'r 'mŵd', chwaith, i'r geiriau yn y gwahanol fersiynau yma. Fe gewch enghraifft ddiddorol o'r peth yn y gân grybwyllais i olaf. 'Rydych chi i gyd yn gyfarwydd â'r ffurf symlaf arni, yr un a gyhoeddwyd yn *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* (I, 71) ac yn *Caneuon Traddodiadol y Cymry* (I, 22) wedi hynny. Ond edrychwch beth sy wedi cael ei wneud â'r geiriau mewn ffurf arall, a gyhoeddwyd gan Mrs. Grace Gwynedd Davies yn *Ail Gasgliad o Alawon Gwerin Môn* (tt. 6-7). Y tro hwn fe weithiwyd yr wyddor i mewn yn fyrdwn ar ddiwedd pob llinell. Wedyn, yng nghasgliad Lady Herbert Lewis, *Folk Songs Collected in Flintshire and the Vale of Clwyd* (tt. 20-21), mae yna fersiwn gasglwyd, 'rydych chi'n cofio, oddi wrth hen wraig, Mrs. Jane Williams, yn Nhreffynnon, sir Fflint. Y mae'n anodd coelio, ond dyma beth mae Lady Herbert Lewis yn ei ddweud yn y nodiadau ar y gân yma:

It used to be Mrs. Jane Williams's favourite song. She used to sing it to each of her twelve babies to cheer them up. She had all her songs from her mother, who had used this song for the same purpose with her children.

Wel, 'fase geiriau'r gân ola' 'ma ddim yn 'cheering up' i unrhyw blentyn, mae'n siŵr — fwy nag i oedolyn! Ond eto, o gofio mai canu tawel, rheolaidd ei rithm — y sŵn ac nid y synnwyr — sy'n mynd i gael effaith ar glust babi bach, siawns na fase'r gân hon gystal lwli-bei â'r un, ac y gwnaech

chi dipyn o suo-ganu llwyddiannus gyda'r 'Ffol di radl' ac ati wrth fagu Sioni bach mewn siôl!

§

Un pwynt eto. Ynglŷn â'r sir neu'r ardal y mae cân yn perthyn iddi, y cwbl y gellir ei nodi yn hollol siŵr yw ble y casglwyd y gân. 'Roedd y caneuon yn trafaelu, nid yn unig oddi mewn i Gymru, ond 'nôl a blaen dros Glawdd Offa, ac ymhellach na hynny. 'Rydym ni i gyd yn cofio am y gân 'Y Gwch Fach' gafodd Silyn Roberts yn America.

Gweision ffermydd — dyna un dosbarth o bobl fyddai'n symud eu lle, ac yn mynd â'u caneuon gyda nhw. Mae caneuon ychen yn enghraifft arbennig o'r peth: fe gewch gân ychen y dwedwn amdani mai un o sir Aberteifi yw hi, ac yna ffeindio bod yr un gân yn mynd lawr ac yn dod yn gân sir Forgannwg. Ac y mae amryw ganeuon sy â rhyw dafodiaith sir Forgannwg, er enghraifft, ynddyn' nhw, ond yr un mor boblogaidd mewn siroedd eraill. Mae'n anodd iawn dweud beth oedd eu tarddiad nhw.

§

Pwynt arall yw symrlwydd llawer iawn o'r caneuon yma. Dyma 'rydych chi'n ddisgwyl — fel 'rydych chi'n gael mewn barddoniaeth werin yn gyffredinol. Yn y penillion gwerin, yn aml iawn, mae rhyw uniongyrchedd mynegiant. Ac un nodwedd amlwg yn hyn yw'r ailadrodd gewch chi mewn llawer o'r penillion yma. Dyna i chi:

Ar ben waun Tredegar mae eirin a chnau,
Ar ben waun Tredegar mae 'falau ym mis Mai,
Ar ben waun Tredegar mae ffrwythau o bob rhyw,—
Ar ben waun Tredegar mae 'nghariad i'n byw.

Felly, mae *popeth* yn ardderchog ac yn rhyfedd ar ben waun Tredegar!

Ond yr enghraifft fwyaf eithriadol o'r symrlwydd eitha' yma, wrth gwrs, yw'r gân 'Ar Lan y Môr' — lle'r ych chi'n cael ailadrodd y cymal 'Ar lan y môr' drwy'r pennill. Hefyd, yn y fersiwn mwyaf adnabyddus, mae'r cymal o'r alaw y cenwch chi'r geiriau hyn arno, yr un fath bob tro — fwy na hynny, ar un nodyn y mae'r cymal hwnnw, yntê? (Gweler *CCAGC*, III, 125, a IV, 36, a hefyd *Caneuon Traddodiadol y Cymry*, gol. W. S. Gwynn Williams, II, 132.)

§

A dod at destunau y geiriau 'ma, o'r diwedd. O safbwynt pynciau ac amcan y canu, mae yna amrywiaeth mawr iawn. Gadewch i ni edrych ar rai o'r prif ddosbarthiadau.

Yn gyntaf, y caneuon gwaith. Nawr, mae yna ddau is-ddosbarth bach

o'r rhain, fel sydd o weithwyr: un dosbarth sy'n *sôn am* waith, ac un arall sy'n *gwneud* y gwaith, sydd *yn* gweithio.

Perthyn i'r dosbarth cynta' mae'r caneuon sy'n *sôn am* y cobler ac am y crydd, a 'Migildi Magildi', 'Teiliwr Oedd Fy Nhaid', ac yn y blaen. Ac ymhlith y rhain, gyda llaw, fe geir un pennill doniol yn cyfeirio at waith y masiwn. Merch sy'n canu, a dyma'r pennill:

Phrioda' i ddim o'r masiwn,
Sy'n dringo i ben y tai,
Rhag ofon iddo gwympo —
A minnau gael y bai!

Ar y llaw arall, caneuon gwaith gwirioneddol yw'r caneuon aredig, caneuon godro a chaneuon môr. Wel, ble'r ydyn ni arni gyda chaneuon môr yng Nghymru? Dyma ni'n genedl o forwyr, a thair ochr i Gymru yn arfordir — ond ble mae'n *shanties* ni ein hunain? Yr hyn a ddigwyddodd, mae'n sicr, yw i ganeuon môr Lloegr gael eu derbyn yn eu crynswth gan ein morwyr ni Gymry yn ganeuon gwaith. Ar y llaw arall, os ydyn ni'n brin o ganeuon *gwaith* morwriaeth, fu yna ddim cenedl erioed, 'rwy'n siŵr, yn fwy cyfoethog o ganeuon ffarwél y morwr. Mae yna ffarwél wedi cael ei chanu gan ein morwyr ni i bron bob tre glan môr yng Nghymru — ac i Ynys Enlli hithau:

Ffarwél i Ynys Enlli,
Ffarwél St. Tudwal's Road,
Ffarwél i dre Pwllheli,
Lle mae'r genod tlysa'n bod;
Ffarwél i drwyn Penychain,
Ffarwél i'r Afon Wen,
Ffarwél i gastell Cricieth,
Sydd â pholyn ar ei ben.

Eto, dyna 'Ffarwél i Dre Biwmaras', a 'Ffarwél i Ddociau Lerpwl' — ffarwél i bob man, a dweud y gwir, gan gynnwys 'Ffarwél i Aberystwyth'. Ac mae'r olaf yma'n ymgorffori popeth, yn grynhoed o'r gwahanol agweddau 'rych chi'n eu cael yn y caneuon ffarwél yma: ffarwél â lle, ffarwél â merch (a'r bachgen, heb gael dim lwc wrth garu, yn bygwth ei fod e'n mynd i'r môr ac na ddaw e' byth yn ôl). Mae iddi lawer o benillion — morwr fan hyn a morwr fan draw (neu *ffug*-forwr, o bosib) yn ychwanegu'i bwt, efallai. Dyma ychydig:

Ffarwél i Aberystwyth,
Ffarwél i Benmaes-glas,
Ffarwél i dŵr y Castell,
Ffarwél i'r Morfa glas.

Ffarwél fo i Benparcau,
Ffarwél i *Figure Four*,
Ffarwél fo i'r ferch fach lana'
Erioed fu'n agor dôr.

Ffarwél fo i Lanhystud,
Lle bûm i lawer gwaith
Yn caru'n ôl fy ffansi —
Ond ofer fu y gwaith.

Myfi sy'n fachgen ifanc
Yn cario'r galon drom;
Myfi sy'n gorfod myned,
A dros y nawfed ton.

Pan af i dros y ddegfed
Ti elli ganu'n iach;
Ni ddof yn ôl drachefen
I blwy Llanbadarn bach.

Caneuon y cartre, wedyn — dosbarth pwysig iawn o ganeuon gwaith, yn wir. Yn ystyr letaf y gair, 'gwaith' yw'r hwiangerddi. Ac yma eto mae yna fwy nag un agwedd, a mwy nag un amcan, i'r canu. Fe gawn ni ddau neu dri dosbarth o ganeuon fan hyn.

Gan ddechrau gyda'r babanod, amcan y dosbarth cynta' — fel y cyfeiriwyd eisoes — yw hala plentyn i gysgu. Dyma'r caneuon lwli-bei, caneuon lle nad yw ystyr y geiriau ddim yn bwysig, ond iddyn' nhw fod yn eiriau dymunol eu sŵn, a'r rhythm yn rhythm esmwyth. Mae gyda ni un gân lwli-bei yng Nghymru nad oes dim geiriau iddi o gwbl, ac 'rwy'n siŵr eich bod chi'n gwybod amdani: 'Si hwi, hai lwli, hai lwli bai'; dyna i gyd. 'Does dim stori iddi, dim byd yn cael ei ddweud.

Dyna'r dosbarth cynta': caneuon fel 'Si Hei Lwli Mabi', 'Morio, Morio', 'Cysga Di, Fy Mhlentyn Tlws' — rhai rhythmig, llyfn. Amcan yr ail ddosbarth o ganeuon cartre' oedd diddori: caneuon ar ryw stori fach o fewn profiad y plentyn, fel 'Hen Wraig Fach yn Rhoi Llaeth i'r Llo', 'Hen Wraig Fach â Basged o Wyau', 'Dau Gi Bach', 'Dacw Mam yn Dŵad', neu 'Deryn y Bwn o'r Banna'. Mae llawer o'r rhain yn ganeuon bach hyfryd o dlws.

Reit debyg iddyn' nhw yw'r trydydd dosbarth, ond fod yna elfen o 'chwarae' yn y rhain: caneuon fel 'Pedoli, Pedoli, Pe-dinc', a 'Gee, Geffyl Bach', ac ambell i fersiwn, efallai, o 'Cyfri'r Geifr'.

Gan adael caneuon gwaith, gadewch i ni droi yn awr at ddosbarth y caneuon sy'n perthyn i wyliau, oriau hamdden ac arferion cymdeithasol.

Adeg y Nadolig, yn gynta'. Mae yna, wrth gwrs, garolau dirifedi ar gael yn Gymraeg, ac fe ddweda' i air am y rheini yn nes ymlaen. Ar wahân iddyn' nhw, mi oedd gyda ni ein canu gwasael, neu 'ganu cwnsela', fel a gawn ni ym mhasiant Mari Lwyd yn y De. Dechreuai'r pasiant hwn, fel arfer, gyda phennill tebyg i:

Wel dyma ni'n dŵad
Yn bobol ddiniwad
I ofyn am gennad
I ganu.

Mae canu o'r fath yn rhan o arfer a oedd yn bod hefyd y tu allan i Gymru. Yn Lloegr, er enghraifft (ac mewn ambell ran o Gymru hithau, o ran hynny) fe ganai gwaseilwyr gân ofyn a oedd yn agor rywbeth fel hyn:

Wassail, wassail, all over the town,
Our bread it is white and our ale it is brown.

Yn un o'r fersiynau Cymraeg fe geir y pennill:

Wel, cerwch lawr i'r seler
I mofyn y gasgen borter,
A dewch â'r hen ddecanter,
Nos heno, nos heno —

ac 'rych chi'n cael yr un geiriau yn gywir, bron, mewn 'Cheshire Wassail Song':

Go down to your cellar and there you will find
Good ale, beer and brandy and the best of old wine,
And if you will bring us a jug of good beer,
We'll not come a-wassailing till this time next year!

Addewid fach reit dda, yntê — blwyddyn o rybudd!

Wedyn, tua'r un adeg — adeg y Nadolig — 'roedd yr arfer diddorol o hela'r dryw; arfer sy'n rhan o lôn gwerin y gwledydd. Grŵp o fechgyn, fel rheol, yn mynd o gwmpas — wedi dal dryw (a'i ladd, efallai), ac yna'i gario, mewn bocs bach gwydr, o ddrws i ddrws, a hyn gyda'r un amcan o gael croeso yn y tŷ.

Mae caneuon y dryw yn rhai hynod iawn. Dyna i chi 'Dibyn a Dobyn' — fel hyn y cenid un fersiwn yn Amlwch, sir Fôn:

'Ddoi di i'r coed?' meddai Dibyn wrth Dobyn,
'Ddoi di i'r coed?' meddai Rhisiart wrth Robin,
'Ddoi di i'r coed?' meddai Abram ei hun,
'Ddoi di i'r coed?' meddan' nhw bod ag un.

A'r penillion yn dilyn:

'Beth wnawn ni yno?' etc.

'Hela'r dryw bach,' etc.

'Sut cawn ni o adre?' etc.

'Ceffyl a throl,' etc.

'Sut gwnawn ei fwyta?' etc.

'Cyllell a fforc,' etc.

Yn ne sir Benfro mi oedd yna gân gyfatebol yn Saesneg, gan ddechrau gyda'r pennill:

'O, where are you going?' says Milder to Melder,
'O, where are you going?' says the younger to the elder,
'O, I cannot tell,' says Festel to Fose,
'We're going to the woods,' says John the Red Nose.

Fe wyddon ni, ymhellach, fod yna fersiwn tebyg i'r gân hon — ac o ran patrwm y geiriau a'r alaw — ar Ynys Manaw. Ond a dychwelyd at y Gymraeg, aelod arall eto o ddefod y dryw gynt oedd yr hen gân fach honno sy'n adrodd y stori ddilynol:

Dryw bach ydy'r gŵr, / Amdano mae stŵr;
Mae cwest arno fe, / Nos heno, ymhob lle.
Fe ddaliwyd y gwalch / Oedd neithiwr yn falch
Mewn 'stafell wen deg, / A'i un brawd ar ddeg.
Fe dorwyd i'r tŵr, / A daliwyd y gŵr;
Fe'i rhoddwyd dan len / Ar elor fraith wen.
Rhubanau o bob lliw / Sydd o gwmpas y dryw,
Rhubanau'n dri thro / Sydd arno yn lle to.

Adeg Calan mai, wedyn. 'Roedd hithau'n adeg bwysig ym myd canu gwerin. Mi fyddai yna garolau Mai, caneuon dwys a difrifol — o waith offeiriad, yn aml. Gwrthgyferbyniad pendant i'r rhain oedd caneuon rhial-twch y *Maypole* a'r twmpath dawn, lle'r oeddech chi'n cael oferedd a dawnsio'r Cadi Ha'.

§

Wel, nawr: gan fod carolau Nadolig a Mai wedi dod i mewn yma, dyma'r lle gorau, efallai, i'n hatgoffa'n hunain, wrth basio, am fesurau'r caneuon gwerin Cymraeg.

Ar y naill law fe gawn fesurau syml megis eiddo'r Hen Benillion. Ymddangosodd mesurau rhyddion o'r fath yn y llawysgrifau Cymraeg o'r unfed ganrif ar bymtheg ymlaen, ac yn wir, fe awgrymodd ambell feirniad i ganu rhydd gyd-oesi â'r farddoniaeth uchelwrol yng Nghymru cyn y cyfnod hwnnw, ond ei fod o dan yr wyneb, ac islaw sylw. Ar y llaw arall — fel y gwyddon ni i gyd, mae'n siŵr — barddoniaeth gaeth, â'i mesurau a'i chynghanedd o dan reolau pendant, ydoedd canu ein beirdd proffesiynol yn yr Oesoedd Canol. Erbyn yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif fe gafwyd, fel petai, briodas neu gyfaddawd rhwng y ddau draddodiad. Datblygwyd canu cynganeddol newydd, un nid ar yr hen fesurau caeth, ond ar fesurau alawon — canu rhythmig, ar fesurau alawon cerddi a baledi poblogaidd y dydd yn Lloegr, i raddau helaeth. A hyd yr alaw yn penderfynu hyd y penillion, fwy neu lai, er — a dyma'r peth rhyfedd yw hwn — fe geir bod llawer o gymhlethdod yn aml ym mhattrwm pennill Cymraeg, a mwy o ailganu cymalau'r alaw nag yn y Saesneg cyfatebol. Hefyd, mae cleciadau'r gynghanedd yn dryfrith yn y canu rhydd newydd hyn. Cyfansoddi clyfar, gofalus, sydd yma, cyfansoddi ymwybodol — ac fe ellid dadlau nad canu gwerin pur mohono.

Yn y carolau, dyma'r math o ganu cymhleth ei batrwm a welir. 'Roedd hi'n arfer gan feirdd adnabyddus fel Huw Morys, Edward Morris, a llu eraill ohony'n' nhw, gyfansoddi carolau Nadolig a Mai yn flynyddol — carol newydd bob blwyddyn. Ac fe welid defnyddio'r un mesurau cymhleth yn aml iawn mewn caneuon serch, fel yn yr enghraifft hon:

Y feinwen fwyn lawen fain lân,
Ddiogan a diddan ei dydd,
Er rhyfyg, 'rwy'n cynnig rhoi cân,
Dda anian, i'r groenlan ei grudd.

Nawr, mae peth fel'na yn wahanol iawn i beth oedden ni'n ei gael yn yr hen benillion syml, gwerinol, fel:

Mae 'nghariad i'n Fenws,
Mae 'nghariad i'n fain,
Mae 'nghariad i'n dlysach
Na blodau y drain; . . .

Gadewch inni edrych ar ambell garol arall cyn symud ymlaen. I ddechrau, dyna i chi garol yr hen Ficer Prichard, penillion pedair llinell, yn ddigynghanedd, yn syml, heb fod yn nhraddodiad y canu cynganeddol:

Awn i Fethlem, bawb, dan ganu,
Neidio, dawnsio a llawenu,
I gael gweld ein Prynwr c'redig
Aned heddiw, ddydd Nadolig.

Cymharwch chi batrwm mydryddol honna â'r cymhlethdod 'rych chi'n ei gael mewn pennill fel:

'Roedd yn y wlad honno fugeiliaid yn gwyllo
Eu praid rhag eu llarpio'n un lle;
Daeth angel yr Arglwydd, mewn didwyll fodd dedwydd,
I draethu iddynt newydd o'r ne' . . .

Mae cyffyrddiadau cynganeddol yn rhan amlwg o'r mesur y tro yma.

O blith y carolau Mai, enghraifft gynganeddol ddymunol iawn yw'r un ganlynol gan Huw Morys:

Y duwiol deulu mwynion,
A'r gonest ferched gwynion,
Fe ddarfu'r dyddiau blinion,
Cawn dirion hinon ha';
Daw Clanmai pêr ei flodau
Bob dydd â deunydd doniau,
Ac iechyd i'r dwyfronnau
Lle bu calonnau cla'.

A hefyd mae un pennill o garol Mai 'rwy'n hoff iawn ohono oherwydd y cyfeiriad diddorol ynddo at arferion cymdeithasol y dydd. Sôn sydd yma am y ffordd y bydden' nhw'n trwsio'u tai, genedlaethau yn ôl:

Hei! codwch y llancesi!
Â lafant dlos a lili
Perffiwmiwch eich ffenestri —
Yn llwyni, heb ddim llai.

Dangosed y morwynion
Fod yn eu teiau tirion,
I bawb heb gêl a ddelon',
Arwyddion mwynion Mai.

(*Fw barhau*)

[*The above is an adaptation of the first part of a lecture delivered by Lady Amy Parry-Williams at the weekend courses held by the Society in Barry (1963) and Bangor (1964). The texts of Welsh-language folk-songs in general form its topic. After discussing the phenomenon of variation, the inter-relationship of text and tune, geographical provenance, and the characteristic directness yet artistry of folk-song expression, it examines two main categories of song: work songs (pausing to consider, especially, sailors' songs of farewell and various kinds of nursery songs) and seasonal songs (in particular, Mari Lwyd and Hunt the Wren songs, May carols and Christmas carols). Finally, it looks at two contrasting Welsh metrical forms: on the one hand, actual free-metre verse as exemplified by the simpler hen bennill ('old stanza') and pennill telyn ('harp stanza'), and on the other, free-metre verse that contained cynghanedd, the elaborate alliterative system borrowed from strict-metre poetry. (Both May and Christmas carols in Welsh were traditionally composed in this second metre-form for a period from the seventeenth century onwards.)*

The last part of this lecture, again in an adapted version, is scheduled to appear in the next issue of our journal. Ed.]

TÔN 'HEN DDARBI' A'I THEULU'

D. ROY SAER

Gellir tybio bod i 'Hen Ddarbi', mewn amrywiol ffurfiau, gylchrediad cryf gynt ar lafar gwlad yng Nghymru. Digwydd ei henw droeon ar daflenni baledi, a gwyddys bod llunio cerddi arni yma yn y ddeunawfed ganrif — gan Dwm o'r Nant, er enghraifft². Hwyrach, yn wir, mai newydd-ddyfodiad yn graddol ennill ei phlwy ydoedd hon yng nghyfnod yr anterliwtiau³ — er fod cyfeiriad ati ar daflen faledi Gymraeg y dywedir iddi gael ei hargraffu gan Thomas Durston yn Amwythig rhwng 1712 a 1762.⁴ Erbyn chwarter cyntaf y ganrif ddilynol ymddengys bod cryn ddefnyddio arni gan feirdd Cymru i rai cyfeiriadau: yn 1823 cwynai Gwallter Mechain o weld cefnu ar 'Yr Hen Dôn' wrth ganu carolau Gwyliau 'gan ddewis yn ei lle rhyw rigwm ar "Old Darby" — "Charming Cloë" — "Betty Brown" — a'r fath sothach, cymmwysach i *Ben y Beili* yn *Nghroes Oswallt*, nac i un man o addoliad crefyddol'.⁵ Eithr mynnu ymbarchuso a wnaeth 'Hen Ddarbi'; fel ambell alaw boblogaidd arall fe'i derbyniwyd i lyfrau emynau Cymraeg — gan ei bedyddio yn 'Cyfamod', gyda llaw — ac o dipyn i beth daethpwyd i'w chysylltu yn arbennig â chaniadaeth y cysegr.

Serch hyn, mae'n amlwg na chollodd y dôn ei hen swyddogaeth am rai cenedlaethau. Nid syndod taro ar fersiwn ohoni yng nghasgliad Miss Maria Jane Williams, Aberpergwm, *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg* (1844), ynghlwm wrth gerdd serch, 'Pan oeddwn ar ddydd yn cyd-rodio'.⁶ Yn niwedd y ganrif ddiwethaf, heb fod nepell o Aberpergwm, dysgodd Mr. Ifor D. Thomas, Castell-nedd, ganu ar amrywiad ohoni eiriau cerdd ddwyieithog am 'helynt caru rhwng merch gyffredin a dyn sylweddol'.⁷ Nid oes amheuaeth, ychwaith, na fu gwahanol ffurfiau arni yn ddigon byw ar gof gwlad yn ystod yr ugeinfed ganrif, a hynny trwodd at y dydd heddiw. Hyd y sylwais i, ni honnir yn *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* fod yr un dôn a gyhoeddwyd yno yn fersiwn o 'Hen Ddarbi', neu unrhyw ran ohoni; ond (yn ychwanegol at gân Ifor D. Thomas) beth am yr alaw a welir yn *CCAGC*, i, 44, er enghraifft? Rhwng Mawrth 1966 a Hydref 1969, wedyn, recordiwyd gan Amgueddfa Werin Cymru fersiynau llafar gwlad o'r dôn yn gyflawn gan dri chanwr mewn gwahanol rannau o Ddeheudir Cymru — yn Hirwaun, Tŷ-croes, a Rhyd-

aman⁸ — ac o ail hanner y dôn yn cael ei defnyddio gan ganwr o Ledrod,⁹ sir Aberteifi, wrth ganu marwnad a luniwyd yn 1855 i goffáu Capten John Crosby Vaughan, Brynog, ger Felin-fach. Sonnir yn y man am berthnasau cerddorol eraill a gofnodwyd yn ystod y ganrif hon.

§

Trafododd Dr. J. Lloyd Williams darddiad posibl 'Hen Ddarbi'.¹⁰ Wedi condemnio'r arfer o gyfeirio ati fel 'Alaw Gymreig', fe'i holrheiniodd i dôn a ddefnyddiwyd gan John Gay yn *The Beggar's Opera* (1728) ar gyfer canu 'Can Love be controlled by Advice'. (Enghraifft ydoedd hyn o fabwysiadu tôn a oedd eisoes yn boblogaidd — cyn hynny buasai iddi gylchrediad fel alaw 'Grim King of the Ghosts'.) Am hanes dilynol y dôn yn ei chyswllt â Chymru dadleuodd Dr. Lloyd Williams iddi ddod rywfodd i'r Deheudir yn sgîl ei phoblogeiddio gan Gay, i gerddi Cymraeg gael eu canu arni yno, ac iddi fynd wedyn i ddwylo'r Diwygywr.

Mae'n werth cyfeirio yma at ymddangosiad 'Hen Ddarbi' mewn ambell ffynhonnell brintiedig nas crybwyllwyd gan Dr. Lloyd Williams. Hyd y gwyddys, y ffynhonnell gynharaf sy'n cynnwys alaw 'Grim King of the Ghosts' yw taflen sengl ddyddiedig tua 1710. Yr un yw'r dôn arni â'r hyn a ddefnyddiwyd gan John Gay, ac fe'i gwelir ar y daflen wedi ei gosod ar 'Collin's Complaint', darn o farddoniaeth o waith Nicholas Rowe.¹¹ Yn 1761, yng nghyfnod poblogrwydd yr operâu baledol, cyhoeddodd John Parry, Rhiwabon, yr un dôn (eto ar eiriau 'Can Love be controlled by Advice') yn *A Collection of Welsh, English and Scotch Airs*.¹² Bron ganrif yn ddiweddarach, yn 1848, rhoed lle i fersiwn ohoni yn ail gyfrol *The Welsh Harper*, casgliad John Parry, 'Bardd Alaw'.¹³ Wrth ei godre yno nodwyd 'This air is introduced in the Beggar's Opera. There are numerous songs, both serious and comic, written by the Welsh Bards to it', ac yn dilyn fe geir tôn yn dwyn yr enw 'Darby Eliot' ynghyd â'r sylw 'Darby Eliot appears to be a kind of an Irish Cousin to Old Darby'. Mewn casgliadau o donau cynulleidfaol a gyhoeddwyd ar gyfer canu emynau arnynt yn Gymraeg ni wyddys i 'Hen Ddarbi' ymddangos cyn ei chynnwys yng nghyfrrol Griffith Harris, Caerfyrddin, *Haleliwiah Drachefn* (1855).¹⁴ Ymhen dwy flynedd arall yr oedd fersiwn hynod debyg i'r emyn-dôn a adwaenir yn gyffredinol heddiw i'w gweld yn *Caniadau Bethlehem* (1857),¹⁵ casgliad carolau wedi ei olygu gan J. D. Jones, Rhuthun.

Mater a gafodd rywfaint o sylw yn nhrefodaeth Dr. Lloyd Williams fu amseriad y dôn. Nodwyd mai 3/4 ydoedd hwnnw yn *The Beggar's Opera* ac wrth ganu cerddi gynt yn Ne Cymru, eithr iddo gael ei redeg yn 5/4 wedi i'r dôn fynd yn rhan o'n canu cynulleidfaol. Achos hyn, meddwyd, fu'r gyfundrefn yn y Gymraeg o acennu geiriau lluosill ar y goben. Trowyd

y curiadau rheolaidd yn ‘amser cloff’¹⁶ — ond ar yr un pryd, yn rhyfedd ddigon, parhawyd i ganu seithfed linell y geiriau (a honno yn unig) mewn amseriad 3/4. Gellir ychwanegu yma fod y duedd at drawsacennu yn ei hamlygu ei hunan, i ryw raddau, ymhob fersiwn o ‘Hen Ddarbi’ yn recordiadau Amgueddfa Werin Cymru — er mai ar linellau 5-6 y geiriau yn unig y’i clywir mewn un datganiad. Fe sylwir, fodd bynnag, mai rhediad llyfn a nodir yn yr enghreifftiau eraill a grybwyllwyd eisoes: yn ‘GKG’, *BO*, *CWESA*, *ANAGM*, *WH* (2), *HD*, cân Ifor D. Thomas, a *CCAGC*, i, 44 (sy’n cyfleu effaith trawsacennu mewn un man). Yr eithriad yw fersiwn *CB*, a nodwyd yn null diweddar yr emyn-dôn, â cherddoriaeth seithfed linell y geiriau yn unig yn llyfn¹⁷ — yn wahanol i fersiwn *HD*, a gyhoeddwyd ddwy flynedd yn gynharach. (I bob pwrpas, yr un yn union yw nodau’r dôn yn *HD* a *CB*.)

O ran amrywiadau ar yr ochr gerddorol hwyrach y dylid cyfeirio yn fyr at un neu ddau beth arall.

Ffurfi y dôn.¹⁸ Yn y cwbl ond dwy o’r enghreifftiau a grybwyllwyd hyd yn hyn, ymddengys mai ffurf AABA yw sylfaen y datganiad¹⁹ — eithr gellid dosbarthu’r caneuon ymhellach yn ôl eu hunion amrywiadau o fewn i’r ffurfiwaith hwnnw. Hanner olaf y framwaith (*BA* uchod) yn unig a gynrychiolir gan fersiynau Lledrod a *CCAGC*, i, 44.

Graddfa. Y mae’r holl enghreifftiau, ymron, yn y modd lleiaf. Ambell dro, fodd bynnag, seinia canwr Lledrod y seithfed nodyn raddfa yn fflat a gwna canwr Tŷ-croes yr un peth ynghyd â tharo trydydd nodyn y raddfa yn siarp ar brydiau. Yn y modd mwyaf y ceir ‘Darby Eliot’ a datganiad canwr Rhydaman.

§

I gloi, ystyrier dyrnaid o donau ychwanegol a berthyn i’r un achau, gan sylwi ar ambell dôn anghyhoeddedig a hefyd ailedrych ar ambell un sydd eisoes yn reit adnabyddus — ond na chanfuwyd ei hunion dras, serch hynny.²⁰

Gwyddys am dystiolaeth arall i ffyniant ‘Hen Ddarbi’ ar lafar gwlad tua chanol sir Aberteifi ddeugain mlynedd a rhagor yn ôl. Cofnodir fersiwn ohoni ddwy waith yn llawysgrifau’r diweddar Mr. J. Ffos Davies, Felinfach.²¹ Megis yn achos fersiwn Lledrod, ail hanner ‘Hen Ddarbi’ yn unig a gynrychiolir yma:²²



Wrth ymyl y Nodiant (Sol-ffa) gwreiddiol, yn y naill achos a'r llall, torrwyd yr enw 'Hen Dderby'. Ni roir geiriau gogyfer â'r dôn, eithr mewn un achos fe'i rhagflaenir gan y pennawd 'Col. Vaughan. Shaci Penbryn'.²³ Ni ddynodir ym mha ardal yn union nac oddi wrth ba ganwr y'i casglwyd oddi ar lafar gwlad.

Yn nes at ddechrau'r ganrif bresennol, yn Nhal-y-bont, codwyd fersiwn wahanol o 'Hen Ddarbi' (eto yn y modd lleiaf) gan un arall a roes wasanaeth clodwiw fel casglydd alawon gwerin — Miss Jennie Williams, 'Ehedydd Ystwyth' (yn ddiweddarach, Mrs. Jennie Ruggles-Gates, Llundain). Yn Eisteddfod Genedlaethol Caerfyrddin, 1911, dyfarnwyd i Miss Williams yr ail wobwr am gasgliad o ganeuon gwerin siroedd Aberteifi, Caerfyrddin, a Phenfro. Un o'r enghreifftiau a gronclwyd ganddi yw 'Mi ganaf yn iach i dre Llundain', o ganu Mr. Thomas Edwards — ymddengys i'r canwr ddweud ei bod yn cael ei chanu 50-60 mlynedd yn gynharach (tua 1850-60, felly).²⁴ Yn wahanol i dôn Lledrod, y mae hon yn atgoffa rhywun o hanner *cyntaf* ambell un o'r enghreifftiau yn seiliedig ar ffurf AABA a grybwyllwyd yn gynharach (e.e., fersiynau tri chanwr Hirwaun, Tŷ-croes, a Rhydaman).

O edrych yn fanylach ar lawysgrifau J. Ffos Davies fe drewir ar ddwy gân ychwanegol ac iddynt donau sy'n ymddangos fel aelodau o deulu 'Hen Ddarbi'. Un yw 'Cyrnal Rhydni', cân dipyn yn rhyfedd ei ffurf.²⁵ Cyhoeddwyd hon yn *Forty Welsh Traditional Tunes*.²⁶ Am ryw reswm ni welodd y llall olau dydd yn yr un casgliad: 'Gadael Aberystwyth' yw'r pennawd a roes J. Ffos Davies iddi, ond yn sgîl cyhoeddi fersiwn ohoni yn *CCAGC* ac o leiaf un casgliad arall²⁷ fe'i hadwaenir yn gyffredinol heddiw ymhlith Cymry Cymraeg fel 'Ffarwél i Aberystwyth'. Amdani y dywedodd Dr. Lloyd Williams, fel golygydd *CCAGC*, 'The tune is reminiscent of the "hwyl" as well as many of the old hymn-tunes',²⁸ a gwyddys iddo gynnig sylw manylach un tro mewn ffynhonnell lawysgrifol: 'touches of Old Derby etc'.²⁹ Eithr o'r ugeiniau o bobl a ddaeth yn berffaith gyfarwydd â'r fersiwn gyhoeddedig, tybed pa nifer a ganfu'r tebygrwydd rhyngddi ag ail hanner yr emyn-dôn 'Hen Ddarbi'. Go ychydig, dybiwn i, a hynny o bosibl am mai rhediad braidd yn afreolaidd sydd i alaw 'Ffarwél i Aber-

ystwyth' fel y daeth yn adnabyddus bellach.³⁰ Ymddengys i mi fod fersiwn J. Ffos Davies yn gymorth i ddwyn y cysylltiadau 'teuluol' fwy i'r amlwg (sylwer, gyda llaw, mai mesur 76.76., yn hytrach na 98.98., sydd i'w geiriau):



1 Ffarwél fo i Aberystwyth,
Ffarwél fo i Benmaes-glas,
Ffarwél fo i dŵr y castell
A hefyd morfa glas.

3 Ffarwél fo i Lanhystud
Lle bŵm i droeon maith
Yn caru'n ôl fy ffansi —
Ond ofer fu y gwaith.

2 Ffarwél fo i Benparcau,
Ffarwél fo i Figure Four,
Ffarwél fo i'r ferch fach lana'
Fu 'rloed yn agor dôr.

4 Mi fŵm i yn ei charu
Am bedwar mis ar ddeg;
Cawn weithiau dywydd garw
Ac weithiau dywydd teg.

5 Ond weithiau cawn hi'n fodlon,
Bryd arall nis cawn hi,
Ond rhwng ei bodd a'i hanfodd
Daeth baban gwan i ni.³¹

Yn Llsgr. AWC 1316³² fe geir copi o 'Ffarwél i Aberystwyth' fel y'i casglwyd gan Miss Jennie Williams (ac fel y'i cyhoeddwyd wedyn). Wrth ochr y gân, yn llaw Dr. J. Lloyd Williams, y mae nodyn pur ddadlennol. Dyfyniad ydyw o sylw gan 'MD' (sef Dr. Mary Davies, yn lled sicr): 'Very similar to the tune used for "Y Gwydr Glas". Note for note like the one sung to me by Mrs. Evans, Aberystwyth, to it in 1909'. Dyma dystiolaeth bwysig, mi gredaf. Craffer eto ar dôn adnabyddus 'Y Gwydr Glas' (gw. isod)³³ ac fe ganfyddir, er gwaethaf y cyfnewid a fu arni, mai fersiwn o 'Hen Ddarbi' ydyw hithau yn y bôn. Fel y gwyddys, yn 'Y Gwydr Glas' fe geir seithfed linell y geiriau ddwy waith: o hepgor y datganiad cyntaf ar honno, daw i'r amlwg y tebygrwydd rhwng y dôn a rhai o'r fersiynau eraill o 'Hen Ddarbi' sy'n seiliedig ar ffurf AABA ar ei hyd. (Rhaid ychwanegu yma fod dechrau'r ail gymal cerddorol, mewn mwy nag un o'r cyfryw fersiynau, yn cychwyn yn uchel, gan adleisio rhediad arferol y pedwerydd cymal.) Ceidw 'Y Gwydr Glas' yr amseriad 6/8,

mae'n wir, eithr digon annisgwyl yw adeiladwaith y dôn bellach o ran patrymau rhythmig (hyd yn oed wedi cael gwared ar y llinell a ailgenir). Onid geiriau'r gân a barodd hyn — a geiriau'r llinell gyntaf yn enwedig? Y mae honno, wrth gwsr, yn llawer rhy hir yn y fersiwn adnabyddus; yn ddeg sillaf (neu naw os cywesgir 'i yma') yn lle saith.³⁴ Nid 'Os daw fy nghariad i yma heno' a ddisgwylid, ond rhywbeth fel 'Os daw fy nghariad heno'. Mesur 76.76.D sydd i benillion 'Y Gwydr Glas' mewn gwirionedd.

{ :m | l :—: l | l :l :l | d' :—: l | s̄e :l :t | d' :—: d' | r' :—: t }

Os daw fy nghariad i y - ma he - no i gu - ro'r gwy - dyr

{ l :—:—: | —:—: m' | n' :—: m' | m' :—: l | s̄e :l :t | d' :—: d' }

glas, . . . Rhowch a - teb gwe - ddus i - ddo, Na dd'we - dwch

{ r' :—: t | l :—: t | d' :—: r' | n' :r' :d | r' :n' :—: | —:—: f' }

ddim yn gas: Nad yw y ferch ddim gar - tref, . . Na'i

{ n' :—: t | d' :d' :l | l :—:—: | s̄e :—: m | l :—: l | l :—: l }

h'wy - llys da yn y ty, . . . Llanc i - fanc o'r plwy

{ | s̄e :m :—: | —:—: m' | n' :—: m' | m' :—: l | s̄e :l :t | d' :—: d' | r' :—: t | l :—: }

a - rall, . . . Llanc i - fanc o'r plwy a - rall, Sydd we - di mynd a hi.

§

At ei gilydd, y mae'r oll a gynigiwyd uchod yn ffurfio tystiolaeth led gadarn i boblogrwydd 'Hen Ddarbi', mewn amryfal fersiynau, yng nghanu traddodiadol y Cymry. Yn wir, o sylweddoli gymaint fu'r bri arni gynt, prin y gellir osgoi dyfalu pa nifer yn ychwaneg o aelodau cerddorol a all fod eto'n aros i'w lleoli yn ei theulu amlganghennog.

[‘*Hen Ddarbi*’ — ‘*Old Darby*’ — is well known among Welsh-speakers as a hymn-tune; inevitably so, perhaps, since it has held a regular place in Welsh-language hymn-books from the mid-nineteenth century onwards. Its history, however, can be traced back a good way beyond that. Some Welsh poets were using it — or, rather, one oral form or another of it — during the eighteenth century, and for songs secular as well as religious. The ‘original’ tune, it has been argued, came into Wales from England after gaining wide circulation through being included in ‘*The Beggar’s Opera*’, and earlier still, during the last quarter of the seventeenth century, that same tune, then known as ‘*Grim King of the Ghosts*’, was already highly popular among the English.]

In nineteenth-century Wales, the adoption of ‘*Hen Ddarbi*’ into Non-conformist worship, and its ensuing success in that context, did not altogether usurp the tune’s previous function. Outside of Welsh chapel it retained an independent existence as a convenient vehicle for folk songs and ‘ballads’. Transmitted orally, it also bred numerous variant-forms. The above article pinpoints several examples of its secular usage, thereby demonstrating both its prevalence and variability, and goes on to argue that the tunes of two very familiar Welsh folk songs, ‘*Ffarwél i Aberystwyth*’ and ‘*Os Daw Fy Nghariad I Yma Heno*’ (‘*Y Gwydr Glas*’) are — though not hitherto recognised as such — additional members of the ‘*Hen Ddarbi*’ tune-family.]

NODIADAU (NOTES)

¹ Addasiad yw'r ysgrif bresennol o rannau o'r erthygl ‘*Marwnad Capten Vaughan, Brynog, 1855: Ei Chefnidir a Rhai o'i Chysylltiadau*’ a gyhoeddwyd yn *Ceredigion* (Cylchgrawn Cymdeithas Hynafiaethwyr Sir Aberteifi), Cyf. VI, Rhifyn 4 (1971), tt. 423-35.

² Gw., e.e., Thomas Edwards, *Gardd o Gerddi* (argr. 1826), 76. Gw. hefyd Robert Davies, *Cnewyllyn Mewn Gwisg* (1798), 91-2.

³ Nid oedd ‘*Old Darby*’ ymhlith y saith mesur mwyaf poblogaidd ar ganeuon yn yr anterliwtiau Cymraeg a gyfansoddwyd wedi 1750; G. G. Evans, ‘*Yr Anterliwt Gymraeg*’ (II), *Llên Cymru*, ii (1952-3), 229. Nid oes, ychwaith, sôn amdani mewn nifer o gasgliadau sy'n cynnwys cerddi i'w canu o'r ddeunawfed ganrif, e.e., *Llyfr Carolau a Dyriau Duwiol* (argr. 1745), *Dewisol Ganiadau yr Oes Hon* (argr. 1779), *Blodeu-gerdd Cymry* (argr. 1823), *Gardd y Caniadau* (1776), *Bardd a Byrddau* (1778), Robert Davies, *Barddoniaeth* (1803), a *Gemwaith Awen Beirdd Collen* (1806). Fel y gellid disgwyl, efallai, nis crybwyllir yn y rhestrï meithion o enwau ceinciau a luniodd Richard Morris o Fôn yn nechrau'r ganrif honno; gw. T. H. Parry-Williams, *Llawysgrif Richard Morris o Gerddi* (1931), 66-7, 80-1, 85-6, a 104-7.

- ⁴ J. H. Davies, *A Bibliography of Welsh Ballads Printed in the Eighteenth Century* (1911), 13. Gw. hefyd yr un gyfrol, tt. 55 a 138, er enghraifft.
- ⁵ Walter Davies, *Eos Ceiriog, sef Casgliad o Bêr Ganiadau Huw Morus* (1823) i, tud. xxxvi.
- ⁶ Tt. 56-7. Dywedir (t. 83) i'r gân gael ei chasglu mewn pentref mynyddig ar adeg gwylmabsant.
- ⁷ *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, v (Rhan 1, 1956-7), 22. 'Ten Thousand a Year' a roir yn deitl ar y gân, eithr o eiriau agoriadol ei phennill olaf y cafwyd hwn. Y mae'r bumed linell o eiriau'r pennill, ynghyd â'i cherddoriaeth, ar goll yn y fersiwn hon fel y'i cyhoeddwyd yn *CCAGC*.
- ⁸ Gan Mrs. Mari Thomas, Mr. David Rees a Mr. Hector Williams, ac ar Dapiau AWC 2421, 2026 a 1497. Ymhob achos, cerdd 'Ymddiddan Rhwng Mab a Merch o Lan Taf' a ganwyd. Gwyddys i'r gerdd hon ymddangos ar daflen baled.
- ⁹ Mr. Thomas Rowlands, ar Dâp AWC 1309.
- ¹⁰ *Y Cerddor*, Ail Gyfres, viii (1938), 145-8. Cymh. sylw W. S. Gwynn Williams, *Welsh National Music and Dance* (1932), 76: 'It is probable that "Clod", "Caerlleon", and the now very Welsh "Hen Ddarbi" or "Cyfamod" — all generally considered Welsh airs — came originally into Wales from England.'
- ¹¹ Gw. Claude M. Simpson, *The British Broadside Ballad and its Music* (1966), 281. Ymddengys fod alaw 'Grim King of the Ghosts' yn boblogaidd iawn yn Lloegr yn chwarter olaf yr ail ganrif ar bymtheg. Diolchgar wyf i Mr. Huw Williams (awdur *Tonau a'u Hawduron*, etc.), Bangor, am fy nghyfeirio at gyfrol Simpson yn y cyswllt hwn.
- ¹² Tud. 50.
- ¹³ Tud. 34.
- ¹⁴ Tud. 88. Cefais y cyfeiriad hwn eto trwy garedigrwydd Mr. Huw Williams.
- ¹⁵ Tud. 5.
- ¹⁶ Myn Dr. Lloyd Williams (t. 148) fod ganddo 'gopi ysgrif cyn hyned ag 1807 yn enghraifft o'r newid', eithr ni ddynodir pa mor gyflawn y 'newid' yn y copi hwnnw.
- ¹⁷ Sylwer, fodd bynnag, fod *CB* yn rhedeg cerddoriaeth y seithfed linell yn chwe chwafer o fewn un bar yn hytrach na chwe chrosiet yn llenwi dau far 3/4.
- ¹⁸ Gwyddys bod gynt fwy nag un ffordd o ganu mesur 'Hen Ddarbi', e.e., lluniodd Dafydd Ddu Eryri ei garol Nadolig 'Rhyfeddol weithredoedd trugaredd' yn benillion 98.98.D i'w canu 'ar fesur "Hen Ddarbi"', y ffordd gyffredin'. Gw. *Corph y Gaingc* (argr. 1834), 234. Fe gofir ei bod yn arfer canu amryw geinciau poblogaidd eraill y Ffordd Fyrraf a'r Ffordd Hwya, e.e., Gadael Tir (Leave Land), Anodd Ymadael (Loth to Depart), Tincian y Gloch/Cloch Alar (Toll Bell/Passing Bell), a Mentra Gwen. Sylwer hefyd fod pennill (neu bennill a 'bwrddwn') ar 'Old Derby/Darby' yn cario deuddeg llinell ar fesur 9.8. gan Dwm o'r Nant; *Gardd o Gerddi* (argr. 1826), 52 a 76. Cymh. Robert Davies ('Bardd Nantglyn'), *Cnewyllyn Mewn Gwisg* (1798), 91-2, a *Diliau Barddas* (1827), 180.

- ¹⁹ Nodwyd bod rhan olaf y gerddoriaeth (BA) i'w hailganu yn achos 'GKG', BO, CWESA, ANAGM a WH ('Hen Ddarby' a 'Darby Eliot').
- ²⁰ Wrth baratoi'r erthygl bresennol ni cheisiwyd chwilio am berthnasau i 'Hen Ddarbi' ymhlith caneuon llafar gwlad a fu'n boblogaidd yn Lloegr wedi'r ddeunawfed ganrif — eithr tybir, wrth gwrs, fod lle i ymchwil i'r cyfeiriad hwnnw.
- ²¹ Ym mis Mai, 1971, cyflwynodd y Parch. Dewi Caradog Davies, Canton, Caerdydd, ei gasgliad o lsgrau caneuon gwerin i Amgueddfa Werin Cymru (Llsgrau AWC 1737/1-56). Yr oedd y rhan fwyaf o'r rhain yn cynnwys defnyddiau yn llaw ei dad, Mr. J. Ffos Davies, gŵr a gyflawnodd waith arbennig tua'r cyfnod 1920-30 trwy gasglu rhai degau o ganeuon gwerin oddi ar lafar gwlad yn sir Aberteifi. Cofnododd eiriau a thonau, ac mae'n amlwg mai ei lafur ef ydoedd sylfaen y gyfrol *Forty Welsh Traditional Tunes* a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Hynafiaethwyr Sir Aberteifi yn 1929 o dan olygyddiaeth yr Athro David de Lloyd a Mr. D. Cledlyn Davies.
- ²² Enghraifft Llsg. AWC 1737/9 (t. 7) a roir yma. Gwelir rhywfaint o ôl newid ar ei llinell gyntaf yn y llsg. Y mae enghraifft Llsg. AWC 1737/10 (t. 33) ddwywaith mor hir, eithr ymddengys mai dyna gofnodiad gwreiddiol J. Ffos Davies o'r dôn 'yn y maes' ac y mae lle i gredu ei bod yn cynrychioli cerddoriaeth *dau* bennill o'r geiriau. Cyfetyb ei 'hail hanner' i'r enghraifft a nodir yma. (Ni chynhwysir yn yr 'hanner gyntaf' ond pwt o gerddoriaeth llinell gyntaf y geiriau.)
- ²³ Cyfeiriad, yn ddiau, at farwnad Capten Vaughan, Brynog. Awdur y farwnad oedd 'Shaci Penbryn' — enw arall ar 'Cerngoch' (John Jenkins, 1825-94), y bardd gwlad o Ddyffryn Aeron.
- ²⁴ Y mae'r rhan fwyaf o'r dôn i'w gweld yn Llsg. AWC 1316 (t. 9). Cyflwynwyd y llsg. hon i Amgueddfa Werin Cymru yn 1965 gan Mrs. Ruggles-Gates ei hunan. Ymddengys i mi mai crynodeb ydyw, yn llaw Dr. J. Lloyd Williams, o gynnwys llsg. Eisteddfod Genedlaethol Caerfyrddin, 1911. Hyd yn hyn ni lwyddais i leoli'r llsg. wreiddiol.
- ²⁵ Gw. Llsg. AWC 1737/3 (t. 17). Y mae peth ôl newid nodau tua chanol y gân yn y llsg.
- ²⁶ Tt. 45-6.
- ²⁷ CCAGC, i (Rhan IV, 1912), 188-9, a *Caneuon Traddodiadol y Cymry* (gol. W. S. Gwynn Williams), i (1961), 19. Cofnodwyd y fersiwn hon gan Miss Jennie Williams o ganu Mr. Dan Evans, Aberystwyth, tua 1911.
- ²⁸ *ibid.*, 188.
- ²⁹ Llsg. AWC 1316 eto (t. 3).
- ³⁰ Derbynnir mai felly y canwyd hi i Miss Jennie Williams. Fe'i nodwyd a'i hamseriad yn gymysgedd o 6/8 a 2/4. Sylwer mai seithfed nodyn fflat a glywyd yn y fersiwn hon, megis a gafwyd weithiau gan Thomas Rowlands, Lledrod.
- ³¹ Llsg. AWC 1737/9 (t. 5). Fe'i gwelir eto, yn yr un casgliad, yn Llsgrau AWC 1737/10 (t. 35), 1737/25 a 1737/27. Ai enw priod oedd 'morfa glas' (1.4)? Onid e, disgwyliad iddo gael ei ragflaenu gan y fannod. Yn llinell olaf y gân 'baban pert' a geir yn Llsg. AWC 1737/9, ond tybed ai J. Ffos Davies a

gynigiodd yr ansoddair. 'Baban gwan' a ddyry Llsg. AWC 1737/10 — sef y 'copi maes', i bob golwg. Diddorol sylwi mai dyna hefyd a gofnododd Miss Jennie Williams, ond i bumed pennill gwahanol iawn gael ei gyhoeddi yn *CCAGC* — dangosir hyn yn eglur gan Lsg. AWC 1316. Pe cawsai fersiwn J. Ffos Davies ei chyhoeddi yn *FWTT* nid y pumed pennill yn unig a fuasai'n wahanol, gan mai'r polisi golygyddol ydoedd i Mr. D. Cledlyn Davies lunio 'cyfaddasiadau' o eiriau'r rhan fwyaf o'r caneuon a gynhwyswyd yn y gyfrol. Darparodd 'gyfaddasiad' o 'Gadael Aberystwyth' hefyd — y mae hwnnw i'w weld yn Llsg. AWC 1737/26.

³² Tud. 2. Am fanylion pellach ynglŷn â Llsg. AWC 1316 gw. nodyn 24 uchod.

³³ Atgynhyrchir yma enghraifft *CCAGC*, i (Rhan 3, 1911), 134. Gw. hefyd *Caneuon Traddodiadol y Cymry*, i (1961), 34.

³⁴ Gwelais hefyd enghreifftiau printiedig ohoni yn wyth a naw sillaf — eithr nis gwelais yn saith sillaf yn unman.

PUM CÂN WERIN O FORGANNWG

A'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd eleni, y mae'n weddus i'r cylchgrawn hwn roi lle i ganeuon o sir Forgannwg. Cynigir yma bum enghraifft amrywiol: dwy o ganeuon y Fari Lwyd, cân ddifyrru plentyn, carol Nadolig, a chân ysgafn o'r cefndir glofaol. Fe'u codwyd, bob un, o'r golofn gynhwysfawr 'Llên Gwerin Morgannwg' a gynhelid tua hanner canrif yn ôl ym mhapur newydd 'Y Darian' gan y lloffwr diwyd hwnnw, Mr. Tom Jones, Trealaw, ger Tonypandy.

1. CÂN OFYN Y FARI LWYD (*Mari Lwyd Request Song*)

Wel dym-a ni'n dŵ - ad, Gyf-eill-ion di - niw - - ad, I
of-yn cawn gen-nad, I of-yn cawn gen - nad; Wel dym-a ni'n
dŵ - ad, Gyf-eill-ion di - niw - ad, I of-yn cawn gen - - nad I
gan-u.

Wel dyma ni'n dŵad,
Gyfeillion diniwad,
*I ofyn cawn gennad (×2);
Wel dyma ni'n dŵad,
Gyfeillion diniwad,
I ofyn cawn gennad
I ganu.

*Dewis arall, yn ôl TJ, oedd mynd ymlaen i ganu geiriau'r llinell hon bum gwaith.

2. CÂN GLOI'R PWNCO (*Debate-Closing Song*)



Ond yn awr 'rwy'n darfod canu,
 Rhowch imi i ymborthi;
 Blwyddyn newydd dda i chwi i gyd,
 A phawb o'r byd, serch hynny.

Ymddangosodd 1 uchod yn rhifyn 12 Awst 1926 y papur, a 2 yr wythnos wedyn. 'Dull Llangynwyd a Bro Morgannwg', meddir, a gynrychiolir gan y gân ofyn — dyry TJ hefyd fersiynau cyfatebol o'r Blaenau a'r Rhondda — a nodir iddi ddod 'oddiwrth rai fu'n cymryd rhan yn chwarae'r Fari Lwyd'. Ni leolir 2 yn fanwl o fewn i'r sir.

Am fanylion ynghylch defod y Fari Lwyd, gweler, yn arbennig, Trefor M. Owen, *Welsh Folk Customs* (Caerdydd, 1959), t. 49 ac ymlaen. Cyflwynir ei chefnidir cyffredinol yng nghyfrol ddiweddar E. C. Cawte, *Ritual Animal Disguise* (Caergrawnt, 1978).

O ran lleoliad dacaryddol, gellir dweud mai i sir Forgannwg, yn bennaf, y perthyn y Fari, er iddi ymddangos hefyd — o dan amryw enwau gwahanol — ar draws rhannau helaeth o siroedd Mynwy a Chaerfyrddin.

Wedi cyfod y ddwy gân uchod, fe'n hatgoffir bod modd clywed cryn amrywiaeth caneuon o fewn i'r ddefod hon. Yn wir, po fwyaf yr edrychir ar weithgareddau'r Fari, mwyaf yn y byd y daw i'r amlwg fod i'w defodaeth, yn ei ffurfiau llawnafl, fframwaith reit estynedig. (Yn hyn o beth, cymharer hi â'r seremoniaeth a drafodwyd yn Trefor M. Owen, 'Canu Gŵyl Fair yn Arfon', *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, Cyf. V, Rhan 4 (1977), tt. 159-77.) Gan wŷr y Fari Lwyd fe ellid cael cân ofyn (yn ymgorffori'r her gychwynnol), canu ymryson y 'pwnco', cân i gloi'r pwnco, cân fynediad (a gyflwynai'r Fari a'i chriw yn fanylach), y difyrrwch ar yr aelwyd (gan roi eu lle i rai elfennau mwy defodol na'i gilydd), ac, yn olaf, gân ffarwelio. Am fersiwn saith-bennill o'r gân ofyn, ynghyd ag enghraifft o'r gân ffarwelio, gw. *Caneuon Llafar Gwlad* (gol. D. Roy Saer, Caerdydd, 1974), tt. 16 a 54. Am yr esiampl brintiedig orau o'r pwnco, gw. *Folksongs of Britain and Ireland* (gol. Peter Kennedy, Llundain, 1975), tt. 158-9.

Rhaid ymochel, fodd bynnag, rhag cymryd bod glynu'n gaeth wrth fframwaith a gynhwysai'r cwbl a restrwyd uchod. Ni wyddys i sicrwydd i'r holl ganeuon hyn gael eu cynnig gan unrhyw griw ar un ymweliad. Hyd yn oed os felly, ni ddisgwylir i'r ddefod fod wedi gweld ei rhediad llawnaf ymhobman — amrywiai'r union berfformiad o griw i griw, ac, efallai, o dan law'r un criw yn ôl y galw. Cofier, gyda hyn, fod o fewn i'r canllawiau 'ffurfiol' ddigon o gyfle i ryddid a ffansi'r foment. Gellir dadlau, yn wir, fod rhywfaint o ffresni creadigol, o elfen annisgwyl, yn hanfodol i wir ffyniant y ddefodaeth.

3. DERYN BACH BYW (*Sprightly Little Bird*)

1. Beth ti moyn y man-'na, der-yn bach byw? Tor-ri iel-an, os bydd-a'i byw.

* 6. On'-bai 'mol-a, bas-wa i ddim byw!

1. Beth ti moyn y man-'na, deryn bach byw?
Torri ielan, os bydda' i byw.
2. Beth ti moyn â ielan, deryn bach byw?
I wado 'ngheffyl, os bydda' i byw.
3. Beth ti moyn â cheffyl, deryn bach byw?
I fynd i'r farchnad, os bydda' i byw.
4. Beth ti moyn yn (y) farchnad, deryn bach byw?
Prynu bara, os bydda' i byw.
5. Beth ti moyn â bara, deryn bach byw?
I ddoti yn 'y mola, os bydda' i byw.
6. Beth ti moyn â bola, deryn bach byw?
On'-bai 'mola, baswn i ddim byw!

1-6. Beth ti moyn?: Beth wyt ti yn ei 'mofyn? 1-6. deryn bach byw: 'syw' (doeth, gwyh) a gofnodwyd yma, fel arfer. 1.2. ielan: gwialen. 2.2. wado: curo. 5.2. doti: dodi.

Cyhoeddwyd y gân uchod gan TJ yn 'Y Darian' ar 21 Awst 1926. Fe'i cawsai, ar bapur, gan Mr. D. Morgans ('Cerddwyson'), gŵr a oedd

wedi ei dysgu ymhlith plant Merthyr Tudful, pan oedd yntau'n un ohonynt, tua'r flwyddyn 1871.

Perthyn hon i'r lliaws cerddi Cymraeg sy'n annerch aderyn. Nid erfyn am latari serch a geir yma, ychwaith, ond deialog lithrig i roi hwyli i blant. Seml ddigon yw ei fformiwla, eithr effeithiol, serch hynny, â phatrwm 'amlwg' y cwestiynau a chyffyrddiad annisgwyl (neu annisgwyl o gyffredin!) yr atebion, y naill fel y llall, yn gogleais. Y mae i holi-ac-ateb bachog — pa un a ymestynnir ef yn 'gadwyn' ai peidio — ei le amlwg, wrth gwrs, ymhlith difyrion traddodiadol plant, a cheir yr un ddyfais yng nghaneuon gwerin oedolion ambell dro, fel y tystia 'Yr Hen Ŵr Mwyn', 'Yr Eneth Ffein Ddu'/'Fy Morwyn Ffein I' a 'Merch Ei Mam'.

Am fersiynau ychwanegol ar y gân uchod, gw. *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, Cyf. II, Rhan 2 (1919), tt. 135-6. Yno hefyd (t. 135) rhoir cerddoriaeth gyfatebol a arferid gynt ar gân ychen yn sir Frycheiniog — sydd gerllaw Merthyr Tudful, lle cofnodwyd 'Deryn Bach Byw'.

4. GWRANDEWCH YN LLON! (*Listen Joyfully!*)

1. Gwrân-dewch yn llon, O! dewch yn llu, Dat-sein-iwn gu gyd-sein-iol gân; Gan
un-o'n deg o fewn y tŷ, Rhown glod i'r Ies-u glân. Fe
ddaeth ang-yl-ion llon eu llef, Gan gar-io new-gdd-ion gor-au'r nef, Gan
ddweud heb gél wrth y bug-eil-iaid y dydd y gan-ed Ef.

Wedi eu hailatalnodi, dyma'r ddau bennill o'r garol a gyhoeddwyd yn 'Y Darian', 22 Rhagfyr 1927:

1. Gwrandewch yn llon, O! dewch yn llu,
Datseiniwn gu gydseiniol gân;
Gan uno'n deg o fewn y tŷ,
Rhown glod i'r Iesu glân.
Heddiw, 'n deg, cyhoeddiad yw
I ddynol ryw, trwy ddoniol ras,
I gofio'r dydd y daeth Mab Duw,
Oen gwiw, ar agwedd gwas.

Cytgan:

Fe ddaeth angylion llon eu llef
Gan gario newyddion gorau'r nef
Gan ddweud heb gél wrth y bugeiliaid
Y dydd y ganed Ef.

2. Mae'r uchel Geidwad yn ddyn hael,
Sef Crist yr Arglwydd, hylwydd haul,
Yn ninas Dafydd ar y wawrddydd
Ar gynnydd i chwi
Gael y plygain gynta' fu,
A'r fwy'n rheng y gwydychion lu,
Goruwch y llawr, atseinio cu
Am eni'r Iesu mawr.

Cytgan:

Fe ddaeth angylion, etc.

Ebe TJ mewn nodyn, dyddiedig 9 Rhagfyr, at olygydd y papur:

Cefais yr hen garol hon gan gymydog, sef Mr. Griffith Williams, Enid Street, Trealar. Dywed ef, ac y mae e'n mynd ymlaen mewn dyddiau, ei fod yn cofio ei nain yn ei chanu.

Tybed, felly, a gawsai'r garol ei chanu mewn gwasanaethau plygain yn y Rhondda ryw dro. Er nad adwaenodd Morgannwg, yn ôl pob golwg, draddodiad carolau mor gynhyrchiol ag eiddo gogledd Cymru, bu yn y sir gryn fri ar gynnal plygeiniau Nadolig — gweler, er enghraifft, Trefor M. Owen, *Welsh Folk Customs* (Caerdydd, 1959), t. 33, ac yn arbennig y disgrifiad lliwgar hwnnw o blygain lleol tuag 1850 a roes 'Glanffrwd' yn *Llanwynno* (gol. Henry Lewis, Caerdydd, 1949), tt. 58-9.

Saif y garol uchod fel y'i cofnodwyd yn Nhrealaw yn esiampl ddiddorol — a brawychus, yn wir — o'r newid a all fod ar ganeuon wedi iddynt dreiglo ar gof a llafar gwlad. Fel y digwydd, argraffwyd yr un garol mewn ffurf gynharach — onid ei ffurf wreiddiol — rai cenedlaethau yn ôl, a hynny yn *Caniadau Bethlehem* (gol. J. D. Jones, 1857, etc.), tt. 63-6. O ran hwyluso cymharu, felly, a hefyd gyflwyno fersiwn fwy cyflawn a di-nam arni, wele eiriau'r ddau bennill cyntaf fel y'u rhoir yno. (Fe sylwir, wrth gwrs, mai cân gynganeddol yn null carolaidd y gogledd ydyw, a hwyrach iddi gael ei chario ar lafar o'r gogledd yn sgîl yr ymfudo prysur i weithfeydd de Cymru yn ystod y ganrif o'r blaen.)


1. Gwrandewch yn llon, a dowch yn llu,
 Datseiniwn gu gysonol gân;
 Gan uno'n deg o fewn ei dŷ,
 Rhown glod i'r Iesu glân;
 Heddiw, yn deg, cyhoeddiad yw
 I ddynol ryw, trwy ddoniol ras,
 I gofio'r dydd y daeth Mab Duw,
 Oen gwiw, ar agwedd gwas.
 Fe ddaeth angylion llon eu llef
 I gario n(e)wyddion gorau'r nef,
 Gan ddweud heb gêl wrth y bugeiliaid
 Y dydd y ganed Ef,
 ' Mae uchel Geidwad, yn ddyn gwael,
 Sef Crist yr Arglwydd hylwydd, hael,
 Yn ninas Dafydd ar y wawrddydd
 Ar gynnydd i chwi ('i) gael '.
2. Y blygain gynta', a'r fwya', fu
 Rhwng gwyichion lu goruwch y llawr
 Yn seinio cân ag atsain cu
 Am eni'r Iesu mawr;
 Gogoniant Duw a ganent hwy
 Mewn canmoladwy seingar lef;
 Tangnefedd rhad i ninnau trwy
 Ei fawr gynhorthwy Ef.
 Caed yr Eneiniog gyda'r wawr
 Yn godiad myrdd, yn Geidwad mawr,
 Cyflawnder Duwdod yn y dyndod,
 I achub llychod llawr;
 Nid clywed n(e)wyddion gwlad y nef
 Gan yr angylion lwysion lef
 Oedd ddigon, gwelwn, i'r bugeiliaid,
 Ond ' Awn i'w weled Ef! '

T. Williams a enwir fel awdur y geiriau — tybed ai 'Eos Gwynfa' (c. 1769-1848), o Lanfihangel-yn-Ngwynfa, sir Drefaldwyn, ydoedd hwn. Am yr alaw, yr un yn y bôn ydyw fersiynau Treallaw a CB, er fod hefyd wahaniaethau rhyngddynt, e.e., yn ôl CB fe ailgenir y rhan olaf ar gyfer y geiriau ychwanegol a gynhwyswyd. Rhwir enwau'r alaw yno, gyda llaw, fel 'Duke of Dero' neu 'Llygoden yn y Felin', a cheir copi arall ohoni, o dan yr enw 'Llygod yn y Felin', yng nghasgliad Nicholas Bennett, *Alawon Fy Ngwlad* (Y Drenewydd, 1896), t. 66. Er fod nwyfiant dawns

yn gweddu iddi, y mae yn y modd lleiaf — peth anghyffredin, braid, o fewn i draddodiad y carolau Nadolig Cymraeg.

Ar y traddodiad hwnnw, gw. yn arbennig Enid P. Roberts, 'Hen Garolau Plygain', *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, Tymor 1952 (Llundain, 1954); D. Roy Saer, 'Y Traddodiad Canu Carolau yn Nyffryn Tanad', *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, Cyf. V, Rhan 3 (1971); Gwynfryn Richards, 'Y Plygain', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes yr Eglwys yng Nghymru*, 1 (1947); Trefor M. Owen, *Welsh Folk Customs* (Caerdydd, 1959); a'r record *Carolau Plygain (Traddodiad Gwerin Cymru — 1*, gol. D. Roy Saer, Sain (Recordiau) Cyf., Penygroes, 1977).

5. CÂN Y CARDI (*The Cardi's Song*)



1. 'Rwy'n lwmpyn mawr o Gardi, Yn newydd ddod o'r wlad, Yn gaff-ar uch-a talcan, Yn ennill mwy na 'nhad!
Cered y byd i'r sawl a fynno, A finna'n llawan iach:
Llym(a)id nawr ac yn y man O gwrw melyn bach!

1. 'Rwy'n lwmpyn mawr o Gardi,
Yn newydd ddod o'r wlad,
Yn gaffar acha talcan,
Yn ennill mwy na 'nhad!

Cytgan/*Chorus*:

- Cered y byd i'r sawl a fynno,
A finna'n llawan iach:
Llym(a)id nawr ac yn y man
O gwrw melyn bach!
2. Mae gen i fwyall notid,
Ond bod 'i min hi'n dwp,
A sledge a mandral gwilod
A phedwar mandral cwt.

3. 'Rwy'n gallu cwto'n gwmws,
'Rwy'n gallu cwto'n gam,
'Rwy'n gallu holo tano
A llanw petar dram!
4. 'Rwyf inna yn hen goliar
Yn dod tsha thre mor ddu —
Yn iwso c'mint o sepon
A gariff gwraig y tŷ!
5. 'Rwy'n ennill shaw o arian,
A'r rheini i gyd yn stôr,
A phan ddaw mis y fala
'Rwy'n mynd tsha dŵr y môr.

1.1. Rhydd TJ hefyd yr amrywiad 'Rwy'n fachgen ifanc teidi'. 1.3. Yn gaffar: nodir hefyd yr amrywiad 'Yn berchan'. 1.3. acha: ar. 2.1. notid: Saes. *noted*. 2.2. twp: heb awch. 5.1. shaw — Saes. *show*. Am eglurhad ar y termau glofaol 'gaffar', 'talcan', 'mandral gwilod/cwt', 'cwto', 'holo' a 'dram', gw. Lynn Davies, *Geirfa'r Glowr* (Sain Ffagan, 1976).

'Key C' a nodir gan TJ gogyfer â'r alaw, eithr fe'i symudwyd uchod i gywair hwylusach. Rhaid hefyd fu ychwanegu trydydd nodyn ar gyfer 'Cered y' yn nechrau'r cytgan. (Onid llygriad, gyda llaw, ydyw llinell gyntaf y cytgan fel y'i ceir yma? Gwyddys bod iddi ffurf arall sy'n esmwythach i ateb y mesur, sef '(O) cered y byd lle cero'.)

Prin odiaeth yw caneuon gwerin Cymraeg sy'n adlewyrchu cefndir diwydiannol, er i ddigonedd o gyfansoddiadau perthnasol ymddangos ar daflenni baledi, wrth gwrs — gw., er enghraifft, gynnwys Ben Bowen Thomas, *Baledi Morgannwg* (Caerdydd, 1951). Eithriadol, felly, yw 'Cân y Cardi' yn hyn o beth, ac y mae hefyd, fel y gwelir, yn gyfoethog ei chyfeiriadaeth a'i ffurfiau tafodieithol.

Cyhoeddwyd y geiriau ynghyd â'r dôn uchod gan TJ yn rhifyn 29 Mawrth 1928 'Y Darian'. Dywaid yno iddo gael y dôn 'trwy garedig-rwydd Mr. Gwilym Griffiths, Swyddog Iechyd, Heol Brithweunydd, Treallaw', a'i clywsai — ar 'Gân y Cardi' — pan oedd efe'n ifanc. Ni nodir o ba le y cawsai TJ y geiriau, ond ychwanegir i rywun arall ysgrifennu yn 'Y Darian' ddeunaw mis yn gynharach ei fod o dan yr argraff mai'r Parch. J. G. Evans, D.D., a'u cyfansoddodd.

Os felly yn wir, cyfyd yma ystyriaeth ddiddorol. Fel y digwydd, ymddangosodd yr un gân ar daflenni baledi Cymraeg — ond o dan wedd a theitl gwahanol. 'Shacki Newi Ddwad' y'i gelwir yno, a nodir ei bod i'w chanu ar alaw adnabyddus 'Tôn y Melinydd':

1. 'Rwy'n glampyn mawr o fachgen,
Yn newy' ddod o'r wlad;
'Rwy'n gaffer acha talcen,
Yn ennill mwy na 'nhad!

Cytgan:

Ffala la la, etc.

2. Mae gen i offer gweithio,
Y gore yn y shir;
'Rwy' newy' dalu douswllt
Am dair o eingion dur!
3. Mae gen i fwyell nobi,
Ond bod ei min hi'n bwt,
A hefyd rawbal *noted*,
A phedwar mandrel cwt!
4. Mae gen i far rhagorol,
Â bôn 'i flaen e'n fain,
A chrwt* i gario cwrlo
Yn baglu fel y traen!
5. 'Rwy'n catsio yn y bicas
A gorfe' yn fy hyd
I dwrio dan y lwmpe,
Nes rhico 'mritsh i gyd!
6. Mi alla' sefyll postion,
Rhai'n dene a rhai'n dew,
A hefyd sefyll cwple —
Ond wyf fi'n fachgen glew!
7. 'Nôl imi sticio 'ngore
I lanw dram o lo,
'Rwy'n rhedeg 'nôl i 'mniawni,
A gorwe', ambell dro.
8. 'Rown i rwy dro yn canu
Gwaith bod y tyrn ar ben:
Mi glywais grac embeidus
Yn y garet uwch fy mhen!

* chlwt?

9. Na chyffwr-i, heb weud celwy',
Me gesum abwth mawr —
A chyda 'mod i'n ddiogel,
'Roedd y *ceilings* ar y llawr!
10. Ond es i ddim i fecso:
Mi gliries hwnnw bant —
A chefes garreg haearn
Yn y grafel, bwmtheg cant!
11. 'Rwy' nawr yn fachgen teidi,
Mae arian gen i'n stôr —
A phan ddaw mis y fale,
Af lawr i ddŵr y môr.

Yn ôl pob golwg, y mae lle i gymryd bod i'r fersiwn hon ystyr deublyg — ei bod, mewn gwirionedd, yn cynnal ail ystyr rhywiol, yn union fel y defnyddir delweddaeth grefftol i'r un pwrpas mewn amryw ganeuon gwerin Saesneg. (Yn Gymraeg, cymharer y gân 'Hen Ladi Fowr Benfelen', sy'n sôn am y pladurwr a'i offer yn y weirglodd, gw. *Caneuon Llafar Gwlad* (gol. D. Roy Saer, Caerdydd, 1974), tt. 34-5, ynghyd â'r nodiadau yno ar y gân. Am drafodaeth lawnach ar ddelweddaeth o'r fath mewn cerddi traddodiadol Cymraeg, gw. E. G. Millward, 'Canu ar Ddamhegion', *Y Traethodydd*, Ionawr 1976, tt. 24-31.) Os sumbolaidd, yn wir, ydyw 'Shacki Newi Ddwad', yna mwy diddorol fyth yw ei pherthynas â 'Cân y Cardi'. Fe welir ar unwaith fod rhannau o'r ddwy yn cyfateb, eithr rhannau yn unig. Beth yn hollol, felly, yw'r cysylltiad rhwng y ddwy? A derbyn bod 'Shacki Newi Ddwad' yn drosiadol, a yw 'Cân y Cardi' (ar wahân i'w chytgan) yn ffrwyth ymgais i lunio fersiwn fwy diniwed a pharchus arni? Tybed ai i'r cyfeiriad hwn y cyfrannodd y Doethor mewn Diwinyddiaeth, os bu iddo ei ran o gwbl? Ar y llaw arall, os penillion 'Cân y Cardi' sy'n cynrychioli cysail y gerdd, ai ychwaneg-iadau direidus rhyw wag o lowr a roes fod yn ddiweddarach i'r fersiwn hwy, o dan deitl newydd? Ni ellir ond dyfalu, ar hyn o bryd.

Pwynt ychwanegol i gloi. Ymddengys bod o leiaf un bys yn y cawl yn perthyn i ryw Gardi a ddaethai i weithio 'o dan ddaear' yn y deheudir. Hwyrach, wedyn, fod hynny'n egluro presenoldeb y cytgan am 'y cwrw melyn bach'. Bu ef yn dra phoblogaidd gynt yn y de-orllewin, ac fe'i priodid yno ag amryw benillion digri gwahanol — fel rhai cân 'Y Gaseg Ddu', er enghraifft.

[Included above, with editorial commentaries, are five Welsh-language songs from Glamorgan. These were initially noted down — in Tonic Sol-fa notation — about fifty years ago and then published, during 1926-28, in the weekly column 'Llên Gwerin Morgannwg' ('Glamorgan Folklore') which was edited for 'Y Darian' newspaper by Mr. Tom Jones of Trealaw, near Tonypany. They are, respectively, two Mari Lwyd custom songs, a question-and-answer nursery rhyme, a Christmas carol, and a joie de vivre collier's song.

The Mari Lwyd items, being a request-for-entry and a debate-closer, underline how extended and elaborate their entire Christmastime ritual might be — for further details of the custom see, especially, Trefor M. Owen, *Welsh Folk Customs* (Cardiff, 1959), and E. C. Carwte, *Ritual Animal Disguise* (Cambridge, 1978).

The text of the Christmas carol as collected in the Rhondda Valley shows considerable mutilation and contrasts alarmingly with the presumed original form published in 1857. On the Welsh Christmas carol tradition see *Welsh Folk Customs* and the information, with additional bibliographical references, offered by the record/booklet *Carolau Plygain/Plygain Carols* (Traddodiad Gwerin Cymru/Welsh Folk Heritage — 1, ed. D. Roy Saer, Sain Records Ltd., Penygroes, 1977).

'Cân y Cardi', rich in Glamorgan speech-forms, also features coal-mining terminology, since the song is in fact a collier's exhilarated boast of his own vocational achievements. Apart from its 'Drink and be merry!' chorus — a floater found also in other Welsh songs — it stands in innocent contrast to its lengthier 'ballad'-sheet counterpart, 'Shacki Newi Ddwad'. The latter — also quoted above — seems to turn on a double entendre in which the collier's work and equipment are made erotically symbolic. It might well have been formed initially, though, through being woven around 'Cân y Cardi', most of which it incorporates.]

CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU

Cwrs Penwythnos. Cynhaliwyd cwrs 1977, fis Medi, yng Ngholeg Llyfrgellwyr Cymru, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, a chafwyd yno ddarlithiau gan Nancy E. Werner (ar 'The Use of Folk Material in Welsh Art Music'), Miss Phyllis Kinney ('The Tunes of "Yr Hen Benillion"'), Dr. Meredydd Evans ('Canu Gwasael'), Mrs. G. Megan Tibbott ('Casgliad Alawon Jennie Williams'), Mrs. Buddug Lloyd Roberts ('Alawon a Gasglodd John Morris'), a Miss Ann Griffiths ('Y Delyn yng Nghymru'). Edrychir ymlaen yn awr at ein cwrs eleni, a gynhelir ar 8-10 Medi yn Neuadd Pantycelyn, Aberystwyth. Disgwylir cael darlithiau y tro hwn gan Mr. Michéal Ó Súilleabháin, Corc (dwy ddarlith); Dr. E. G. Millward, Aberystwyth; Mrs. Eunice Bryn Williams, Llanbadarn Fawr, a'r Athro Emeritws Stephen J. Williams, Abertawe. Am fanylion pellach, holer ein Hysgrifennydd.

Gŵyl Werin Cymru. Wedi methu â'i chynnal y llynedd, adferir yr Ŵyl eleni, gan ei llwyfannu yn Llandrindod ar ddydd Sadwrn, 4 Tachwedd.

CYMDEITHASAU ERAILL

SWaFF. Gŵyr y rhan fwyaf o'n haelodau, gobeithio, am weithgarwch Cymdeithas Ddawns Werin Cymru, Yr Urdd er Hyrwyddo Cerddoriaeth yng Nghymru, a Chymdeithas Gerdd Dant Cymru, a hefyd am eu cylchgronau, *Dawns*, *Cerddoriaeth Cymru* ac *Allwedd y Tannau*. Tybed, fodd bynnag, faint ohonom a glywodd hyd yn hyn am y newydd-ddyfodiad SWaFF — y South Wales Folk Federation. Fe'i ffurfiwyd y llynedd gan Barry Luck, 28 Grafton Close, Cyncoed, Caerdydd (Ffôn: Caerdydd 490737), a Dick Shilton, 1 Wolffe Close, Y Bont-faen, De Morgannwg (Ffôn: Y Bont-faen 3143). Eu bwriad canolog oedd sefydlu cyswllt mwy effeithiol rhwng clybiau canu gwerin De Cymru. Dosberthir cylchlythyr Saesneg, *SWaFF News*, sydd yn rhad ac am ddim, bob deufis. (Unpeth o ddiddordeb arbennig yn ei rifyn diweddaraf yw hysbyseb yr ŵyl fawr, Geltaidd ei naws, sydd i'w chynnal ym Mhontardawe ar benwythnos 18-20 Awst eleni.)

International Folk Music Council. Er i'r IFMC ei hunan gael ei ffurfio cyn belled yn ôl ag 1947, yn 1973 y sefydlwyd cangen swyddogol yr United

Kingdom National Committee. Etholwyd Mr. Peter R. Cooke, School of Scottish Studies, Caeredin, yn Gadeirydd arno, a chynrychiolwyd Cymru ar ei Bwyllgor Gwaith gan Miss Phyllis Kinney a Mr. D. Roy Saer. Trefnir cynhadledd flynyddol i'w chynnal tua'r Pasg: wedi ymweld â Chymru (neu, yn fanwl, â phlasty'r Dyffryn, ger Caerdydd) yn 1977, bu yng Nghaeredin eleni, a chyn bo hir fe ellir cael gwybod am ei lleoliad y flwyddyn nesaf trwy law'r Ysgrifennydd, Mrs. Gwen Montagu, 7 Pickwick Road, Dulwich, Llundain, SE21 7JN (Ffôn: 01-274-8104). Hefyd, yn chwarterol, cyhoeddir *Newsletter* sy'n cynnig gwybodaeth dra gwerthfawr am waith ymchwil ac addysgol, cyhoeddiadau a digwyddiadau cyfoes ym maes canu gwerin yn y gwledydd hyn. £1 yw'r tanysgrifiad blynyddol amdano, a'r swm yn daladwy i'r 'International Folk Music Council' drwy law'r Golygydd, Miss Marie Slocombe, 33 Frogna, Llundain, NW3 7YD. I unigolion, cost ymuno â'r IFMC ei hunan, gyda llaw, yw £8.22 (sef 16.00 dolar Canada), a gellir, os dymunir, gynnwys y swm hwnnw hefyd o fewn i'r un sic.

CYHOEDDIADAU

Er pan ymddangosodd y rhifyn blaenorol o'n cylchgrawn, cyhoeddwyd recordiadau hirfaith o ganu gwerin gan ddau o swyddogion y Gymdeithas: Dr. Meredydd Evans (o dan y teitl *Merêd*, trwy Gwmni Sain) a Mrs. Buddug Lloyd Roberts (*Helo, Blant!*, trwy Gwmni Cambrian). Cynnwys y gyntaf o'r rhain wyth ar hugain o ganeuon amrywiol, a'r ail tua'r un nifer o ganeuon wedi eu dewis yn arbennig ar gyfer plant 3-7 oed. Rai wythnosau cyn y Nadolig cyhoeddwyd hefyd record hirfaith *Carolau Plygain*, fel y gyntaf yn y gyfres *Traddodiad Gwerin Cymru*. Rhyddheir y gyfres gan Gwmni Sain, ac fe'i seilir yn bennaf ar recordiadau o gasgliad Amgueddfa Werin Cymru.

Cylchgrawn estron a gynhwysodd, yn ddiweddar, drafod ar gerddorion o Gymru yw *Traditional Music*. Daw allan, deirgwaith y flwyddyn, trwy law'r golygydd, Alan Ward, 90 St. Julian's Farm Road, Llundain, SE27 0RS. Rhoes Rhif 6 (1977 Cynnar) sylw i aelodau cerddorol teulu Abram Wood (ynghyd â theulu John Roberts, 'Telynor Cymru'), a Rhif 7 (Canol 1977) i'r 'Gower Nightingale', Philip Tanner o Langennydd.

YMCHWIL

Yn ystod gwanwyn 1978 dyfarnwyd gradd M.A. (Cymru) i'r Americanes Nancy E. Werner am draethawd ar destun 'Twentieth Century Musical Composition in Wales and its Relationship with Traditional Welsh Music'.

Wedi cael ei gradd gyntaf yn yr Adran Gerddoriaeth, Prifysgol California, San Diego, enillodd Ms. Werner ysgoloriaeth Fulbright a'i galluogodd i dreulio blwyddyn yng Nghymru a bu yma fel myfyriwr ymchwil yn yr Adran Gerddoriaeth, Coleg y Brifysgol, Caerdydd, am y flwyddyn golegol 1976-77. Cedwir un copi o'i thraethawd yn Amgueddfa Werin Cymru.

Yn yr Adran Gymraeg, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, y mae Mrs. Rhiannon Ifans yn parhau ei gwaith ar y canu gwaseila Cymraeg.

NEWS

WELSH FOLK-SONG SOCIETY

Weekend Course. *The 1977 course was held in September, at the College of Librarianship — Wales, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, and lectures were delivered by Nancy E. Werner (on 'The Use of Folk Material in Welsh Art Music'), Miss Phyllis Kinney ('The Tunes of "Yr Hen Benillion"'), Dr. Meredydd Evans ('Canu Gwasael' — 'Wassail Singing'), Mrs. G. Megan Tibbott ('Casgliad Alawon Jennie Williams' — 'Jennie Williams's Song Collection'), Mrs. Buddug Lloyd Roberts ('Alawon a Gasglodd John Morris' — 'Songs Collected by John Morris') and Miss Ann Griffiths ('Y Delyn yng Nghymru' — 'The Harp in Wales'). We now look forward to this year's course, which is to be held during 8-10 September at Pantycelyn Hall, Aberystwyth. Lectures are expected this time from Mr. Michéal Ó Súilleabháin, Cork (two lectures); Dr. E. G. Millward, Aberystwyth; Mrs. Eunice Bryn Williams, Llanbadarn Fawr, and Emeritus Professor Stephen J. Williams, Swansea. For further details, enquire of our Secretary.*

Gŵyl Werin Cymru (Welsh Folk Festival). *Following its omission in 1977, the Festival returns this year and will be held at Llandrindod Wells, Powys, on Saturday, 4 November.*

OTHER SOCIETIES/ORGANISATIONS

SWaFF. *We assume that most of our members are aware of the activities of the Welsh Folk Dance Society, The Guild for the Promotion of Welsh Music, and Cymdeithas Gerdd Dant Cymru, and also of their journals*

Dawns, Cerddoriaeth Cymru/Welsh Music and Allwedd y Tannau. *How many, however, have so far heard of the recently-arrived SWaFF — the South Wales Folk Federation? It was formed last year by Barry Luck, 28 Grafton Close, Cyncoed, Cardiff (Tel: Cardiff 490737), and Dick Shilton, 1 Wolffe Close, Cowbridge, South Glamorgan (Tel: Cowbridge 3143), whose central aim was to establish more effective contact between folk song clubs in South Wales. An English-language newsletter, SWaFF News, appears every other month and is free of charge. (One item of particular interest in its latest number is the announcement of the Celtic flavoured Pontardawe Folk Festival, to be held on the weekend of 18-20 August.)*

International Folk Music Council. *Although the IFMC itself was formed as long ago as 1947, it was in 1973 that the official 'branch' of the United Kingdom National Committee came into being. Mr. Peter R. Cooke, School of Scottish Studies, Edinburgh, was elected its Chairman, and Wales was represented on its Working Committee by Miss Phyllis Kinney and Mr. D. Roy Saer. An annual conference is held around Eastertime: after visiting Wales (or, more precisely, Dyffryn House, near Cardiff) in 1977, it went to Edinburgh this year, and details of its venue for 1979 should be obtainable soon from the Secretary, Mrs. Gwen Montagu, 7 Pickwick Road, Dulwich, London, SE21 7JN (Tel: 01-274-8104). Also, a quarterly Newsletter is issued, containing valuable up-to-date information of research and teaching, publications, activities and events in the field of folk music in the British Isles. Annual subscription for the Newsletter is £1, payable to the 'International Folk Music Council' through the Editor, Miss Marie Slocombe, 33 Frognal, London, NW3 7YD. For individuals, incidentally, the annual membership subscription to the IFMC itself now stands at £8.22 (equalling 16.00 Canadian dollars), and this second sum may be included in the same cheque, etc., if necessary.*

PUBLICATIONS

Since the previous issue of our journal, Long-Playing records of folk songs have been made by two of the Society's officers: Dr. Meredydd Evans (under the title Merêd, for Sain Records Ltd.) and Mrs. Buddug Lloyd Roberts (Helo, Blant! for Cambrian Recordings Ltd.). The first of these contains twenty-eight items which are offered as a representative cross-section of Welsh folk song, and the second about the same number of songs selected especially for age-group 3-7. Also released, just before Christmas, was Carolau Plygain/Plygain Carols, as the first of the series Traddodiad

Gwerin Cymru/ Welsh Folk Heritage. *This series is issued by Sain Records Ltd. and is chiefly based upon fieldwork recordings made by the Welsh Folk Museum, St. Fagans.*

One journal from outside of Wales has recently included writings on some Welsh folk musicians. This is Traditional Music, which is issued three times a year through its Editor, Alan Ward, 90 St. Julian's Farm Road, London, SE27 0RS. No. 6 (Early 1977) features the gipsy music-makers of Abram Wood's family (including, too, the family of harpist John Roberts, 'Telynor Cymru'), while No. 7 (Mid 1977) devotes attention to 'The Gower Nightingale', Philip Tanner of Llangennydd/Llangennith.

RESEARCH

During the spring of 1978, the American Nancy E. Werner was awarded her M.A. (Wales) degree for a thesis on 'Twentieth Century Musical Composition in Wales and its Relationship with Traditional Welsh Music'. Initially graduated from the Department of Music, University of California, San Diego, Ms. Werner won a Fulbright Scholarship which enabled her to spend a year in Wales, and she remained here, as a research student in the Department of Music, University College, Cardiff, for college session 1976-77. One copy of her thesis is now housed at the Welsh Folk Museum.

In the Department of Welsh, University College of Wales, Aberystwyth, Mrs. Rhiannon Ifans is continuing her research-work upon Welsh wassail-song.

CYMEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU

A garech chwi ymuno â Chymdeithas Alawon Gwerin Cymru? Neu, os ydych eisoes yn aelod, beth am ddarbwyllo rhywun arall i ymuno?

Sefydlwyd y Gymdeithas yn 1908. Ei phwrpas yw casglu, cadw a pherfformio caneuon gwerin Cymru, cyhoeddi enghreifftiau dethol ohonynt, a hybu ymchwil, yn llenyddol a cherddorol, yn y maes hwn. Erbyn hyn ymddangosodd dros ugain rhifyn o'i chylchgrawn, gan gynnwys dros 500 o ganeuon. Yn flynyddol er 1963, ac ym mis Medi, cynhaliwyd cwrs penwythnos o ddarlithiau (gan arbenigwyr o Gymru a gwledydd estron), trafodaethau a chanu. Tua mis Hydref, hefyd, llwyfennir Gŵyl Werin Cymru, gŵyl undydd a drefnir ar y cyd gan Gymdeithas Ddawns Werin Cymru a'n Cymdeithas ninnau.

Y tanysgrifiad blynyddol yw £2 i Oedolion, £3 i Wŷr a Gwragedd ynghyd, a £1 i blant. Dosberthir ffurflen ymaelodi gyda'r cylchgrawn hwn a gellir cael copïau ychwanegol ohoni oddi wrth yr Ysgrifennydd:

Mrs. Buddug Lloyd Roberts, Hafan, Cricieth, Gwynedd (Ffôn: Cricieth 2096).

THE WELSH FOLK-SONG SOCIETY

Would you like to join the Welsh Folk-Song Society? Or, if you are already a member, why not persuade someone else to join?

The Society was established in 1908. Its aims are the collection, preservation and performance of Welsh folk-song, its publication, and the encouragement of related research-work. By today, over twenty numbers of its Journal have appeared, including over 500 songs (nearly all of them with Welsh-language texts). Annually since 1963, and usually in September, the Society has held a weekend course of lectures (by specialists from Wales itself and other countries), discussions and song. Around October, too, in conjunction with the Welsh Folk Dance Society, it stages the one-day Gŵyl Werin Cymru (Welsh Folk Festival).

Annual subscription is £2 for Adults, £3 for Husbands and Wives jointly, and £1 for Children. A membership form is distributed with this journal and additional copies of it are available from the Secretary:

Mrs. Buddug Lloyd Roberts, Hafan, Cricieth, Gwynedd (Tel: Cricieth 2096).



2316140

Dyblygion

Canu gwerin

Folk song.